



Deddf Trwyddedu 2003

Datganiad Polisi Drafft 2020

Adolygiad 2020

**Yr Adran Drwyddedu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7PG
01443 866750**

**E-bost: trwyddedu@caerffili.gov.uk
Gellir cael rhagor o gopiâu o'r
cyfeiriad uchod neu o'r wefan:
<http://www.caerffili.gov.uk>**

**Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill
ar gais.**

This publication is available in English, other languages or formats on request.

Cynnwys

Tudalen

1.	Cyflwyniad.....	5
2.	Proffil y Sir.....	8
3.	Pwyllgor Trwyddedu.....	8
4.	Egwyddorion Sylfaenol	9
5.	Parthau ac oriau trwyddedu.....	10
	Amser gorffen yfed/pwyllo.....	12
6.	Galw masnachol	12
7.	Niwed Alcohol	12
8.	Cyffuriau	15
9.	Amcanion Trwyddedu	16
10.	Atal troseddu ac anhrefn.....	17
11.	Atal niwsans cyhoeddus	19
	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rheoli Sŵn a Seinwedd	21
12.	Diogelwch y cyhoedd	22
13.	Diogelu plant rhag niwed	24
14.	Hawl i gyflwyno sylwadau.....	27
15.	Awdurdodau cyfrifol.....	28
16.	Pobl eraill.....	29
17.	Integreiddio strategaethau.....	29
	Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.....	30
	Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014	30
	Deddf Mewnfudo 2016.....	30

Deddf Hawliau Dynol 1998	31
Deddf Cydraddoldeb 2010	31
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.....	31
Perthynas â'r Broses Gynllunio.....	32
18. Trwydded alcohol bersonol	34
19. Trwydded safle.....	35
20. Tystysgrif safle clwb.....	36
21. Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro	37
22. Gwerthu a chyflenwi alcohol	39
23. Adloniant rheoledig	39
Cynulleidfa Gyhoeddus.....	40
Trosolwg o'r amgylchiadau lle nad yw gweithgareddau adloniant yn drwyddadwy	41
Newidiadau dadreoleiddio lle nad oes angen trwydded	41
Amgylchiadau lle nad yw gweithgareddau adloniant bellach yn drwyddadwy	
<i>Safleoedd awdurdodau lleol, darparwyr gofal iechyd mewn ysbytai ac ysgolion: eithrio gweithgareddau traws adloniant.....</i>	<i>44</i>
<i>Yr awdurdod lleol, yr ysbyty a safle'r ysgol: adloniant cerddorol gan drydydd parti</i>	<i>45</i>
<i>Safleoedd cymunedol: adloniant cerddorol</i>	<i>45</i>
<i>Safleoedd cymunedol: arddangos ffilm</i>	<i>46</i>
<i>Syracasau Teithiol</i>	<i>47</i>
<i>Cerddoriaeth Fyw</i>	<i>47</i>
<i>Termau allweddol a ddefnyddir o ran cerddoriaeth fyw</i>	<i>48</i>
<i>Cerddoriaeth wedi'i Recordio</i>	<i>49</i>
<i>Dramâu a Dawns</i>	<i>49</i>
<i>Chwaraeon Dan Do</i>	<i>49</i>
Amodau trwydded	
<i>Cerddoriaeth Fyw neu Gerddoriaeth wedi'i Recordio.....</i>	<i>50</i>
<i>Gerddi Cwrw</i>	<i>50</i>
<i>Dramâu, dawns a chwaraeon dan do</i>	<i>51</i>
<i>Adloniant bocsi neu reslo ac amodau sy'n ymwneud â chwaraeon ymladd cyfunol</i>	<i>52</i>
Amodau sy'n ymwneud â gweithgareddau eraill nad ydynt yn rhai trwyddadwy	53
Cerddoriaeth eilaidd.....	53

Dileu amodau'r drwydded	54
Bysgio	55
Ffilm Eilaidd	55
Gweithgaredd adloniant a ddarperir fel rhan o ofal plant	56
Perfformiad gan Blant	56
24. Gweinyddiad	57
25. Gweithdrefnau ymgeisio	57
Yr Awdurdodau Cyfrifol	58
26. Atodlen weithredu.....	62
27. Amodau	63
28. Ceisiadau lle derbynnir sylwadau	64
29. Ymarfer a dirprwyo swyddogaethau	68
30. Adolygiadau o drwyddedau	71
31. Asesiad Effaith Gronnus	72
32. Gorchmynion cyfyngu yn gynnar yn y bore.....	73
33. Gwrandawiadau	74
34. Apeliadau.....	74
35. Gweithredu penderfyniad Lllys yr Ynadon	76
36. Gorfodi.....	76
37. Ffioedd yn Gyffredinol.....	76
38. Ffioedd Blynyddol ar gyfer Trwyddedau Safle a Thystysgrifau Safle Clwb	77
39. Atal trwyddedau am beidio â thalu ffioedd blynyddol	77
40. Ardollau gyda'r hwyr	78
41. Rhagor o wybodaeth	79

Cyflwyniad

- 1.1 Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, wrth gyflawni ei rôl fel yr Awdurdod Trwyddedu, gyhoeddi "Polisi Trwyddedu" sy'n amlinellu'r polisiau y bydd y Cyngor yn eu gweithredu'n gyffredinol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau a wneir o dan y Ddeddf. Hwn yw'r datganiad polisi hwnnw, sydd wedi'i baratoi yn unol â darpariaethau Deddf 2003 a fersiwn diweddaraf Canllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd o dan adran 182 o'r Ddeddf.
- 1.2 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ("y Cyngor") yw'r Awdurdod Trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac mae'n gyfrifol am roi trwyddedau safle, tystysgrifau safle clwb, a thrwyddedau personol ar gyfer gwerthu a/neu gyflenwi alcohol a darparu adloniant rheoledig a lluniaeth gyda'r hwyr. Drwy gydol y ddogfen, cyfeirir at y Cyngor fel yr Awdurdod Trwyddedu, lle bo'n briodol, er mwyn osgoi dryswch rhwng y rôl hon a'r swyddogaethau eraill a gyflawnir gan y Cyngor.
- 1.3 Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd ceisiadau am drwyddedau, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Trwyddedu.
- 1.4 Wrth ddatblygu'r polisi trwyddedu hwn, ystyriwyd cyngor gan gyrff megis Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gwahanol gymdeithasau masnachol lle'r oedd hynny'n bosib. Lle bo'n briodol, ystyriwyd Polisiau awdurdodau eraill Gwent hefyd, er mwyn sicrhau unffurfiaeth lle bo'n bosib ac i sicrhau bod y gwahanol bolisiau'n cael eu hintegreiddio dros ardal ddaearyddol ehangach. Ystyriwyd polisiau Corfforaethol eraill a fabwysiadwyd gan y Cyngor hefyd, a chyfeirir at y rhain drwy gydol y ddogfen hon fel sy'n briodol.
- 1.5 Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 fesurau i fynd i'r afael â gwahaniaethu a wynebir gan bobl anabl mewn meysydd penodol gan gynnwys cyflogaeth, a mynediad at nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau. Rhaid i'r ymgeisydd roi sylw i'r deddfwriaeth hon. Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n defnyddio trwyddedu i fynd ar drywydd materion o'r fath, ac eithrio pan fydd deddfwriaeth ac arferion da derbyniedig yn cefnogi hyn.
- 1.6 Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gydymffurfio â phob deddfwriaeth sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, ac mae ganddo bolisi ar waith er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Mae gan y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol sydd ar gael i'w archwilio ar ein

gwefan. Bydd gwaith trwyddedu pobl a safleoedd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 yn mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb gwasanaeth a gorfodaeth i bob aelod o'r gymuned.

- 1.7 Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i awdurdod lleol weithredu mewn modd sy'n anghydnaws â hawl o'r fath. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw i'r Ddeddf Hawliau Dynol wrth ystyried unrhyw fater trwyddedu, yn enwedig o ran y ffordd yr ystyrir ceisiadau ac y gweithredir gweithgareddau gorfodi.
- 1.8 Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei deilyngdod ei hun, ac yn unol â'r Polisi hwn.
- 1.9 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod bod posibilrwydd y bydd angen iddo wro o'r Polisi hwn ac o'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf mewn amgylchiadau unigol ac eithriadol, a phan fo angen penderfyniad o'r fath er budd hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Ymgynghorir ar unrhyw benderfyniad o'r fath gyda chynghorwyr cyfreithiol priodol yr Awdurdod Trwyddedu, a bydd y rhesymau dros unrhyw wriad o'r fath yn cael eu cofnodi'n llawn.
- 1.10 Ni fydd y polisi trwyddedu'n ceisio rheoleiddio materion y darperir ar eu cyfer mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall, a bydd yn ceisio ategu cyfundrefnau o'r fath, er enghraifft, cynllunio, iechyd a diogelwch, hawliau cyflogaeth, diogelwch tân, ac ati.
- 1.11 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n dymuno annog deiliad trwydded i gynnig ystod eang o weithgareddau adloniant ym Mwrdeistref Sirol Caerffili drwy gydol eu horiau agor, ac i hybu cerddoriaeth fyw, dawn, theatr, ac ati, er budd diwylliannol ehangach y gymuned.
- 1.12 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n diweddarau ac yn cyhoeddi Polisi Trwyddedu newydd pryd bynnag y bydd ei angen, ac o fewn pum mlynedd i ddyddiad y Polisi hwn, a bydd yn ymgynghori'n llawn â phartneriaid, cymdeithasau masnachol a grwpiau preswylwyr fel y bo'n briodol ar yr adeg honno, a bydd unrhyw sylwadau a ddaw i law yn cael eu hystyried ar yr adeg honno. Fodd bynnag, pan fydd angen gwneud diweddariadau oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth wladol, arweiniad statudol neu i fanylion cyswllt, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio'r polisi hwn heb ymgynghori pan fo angen gwneud hynny er mwyn sicrhau bod y polisi'n cyd-fynd â deddfwriaeth wladol neu arweiniad statudol.
- 1.13 Bydd yr adolygiad polisi hwn yn ystyried y materion canlynol wrth ail ddrafftio:

- Diwygiadau i Ddeddf Trwyddedu 2003 a wneir gan y canlynol:
 - ❖ Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
 - ❖ Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012
 - ❖ Deddf Dadreoleiddio 2015
 - ❖ Offerynnau statudol a osodwyd
 - ❖ Canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003
 - ❖ Mewnfudo

1.14 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd Adolygiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor gydag aelodau o Fforwm Trwyddedu Gwent, sy'n cynnwys Swyddogion Trwyddedu'r Cyngor, adran Drwyddedu'r Heddlu a Swyddog Iechyd y Cyhoedd ar gyfer ardaloedd Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen, Blaenau Gwent a Chasnewydd. Nod y Fforwm oedd ceisio cysoni ei bolisiau ar gyfer holl ardal Gwent gyda'r bwriad o ddarparu dull cyson o drwyddedu ar draws y rhanbarth.

2. Proffil y Sir

- 2.1 Mae gan y Fwrdeistref Sirol boblogaeth o fwy na 181,019 ac mae ei chymeriad yn lled wledig ac yn cwmpasu 69,160 o erwau. Mae saith prif ganol tref yn gwasanaethu'r ardal, (Caerffili, Coed Duon, Bargod, Ystrad Mynach, Trecelyn, Rhisga a Rhymni) ynghyd â phentrefi niferus, pob un â'u cymeriad unigol eu hunain. Mae'r awdurdod yn cynnwys 33 o wardiau.
- 2.2 Mae sawl crynodiad mawr o safleoedd yn y Fwrdeistref Sirol sy'n cynnig adloniant rheoledig a/neu'n manwerthu alcohol. Mae llawer o glybiau preifat, nifer o glybiau nos, theatrau ac adeiladau ar gyfer arddangos ffilmiau hefyd. Mae canolfannau lleol megis neuaddau pentref, neuaddau cymuned a neuaddau ysgol, clybiau chwaraeon, ac ati, hefyd yn cynnig lleoliadau ychwanegol ar gyfer gweithgareddau diwylliannol.
- 2.3 Yn ystod misoedd yr haf, mae sawl digwyddiad awyr agored yn darparu ar gyfer y cynulleidfaoedd diwylliannol mwy ac mae llawer o garnifalau a ffeiriau lleol ac ati'n cael eu trefnu mewn cymunedau llai.
- 2.4 Mae llawer o dafarndai yn y Fwrdeistref Sirol y tu allan i'r prif drefi, a llawer o'r rhain mewn pentrefi bach. Mae'r rhain yn darparu canolbwynt ar gyfer bywyd cymunedol. Mewn achosion eraill, gall hyn gael ei ddarparu gan siopau bach, siopau ac archfarchnadoedd sy'n gwerthu alcohol.
- 2.5 Gall safleoedd a digwyddiadau sydd wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 gyfrannu at yr economi leol drwy dwristiaeth, datblygiad diwylliannol a sicrhau'r fasnach fwyaf gyda'r nos.
- 2.6 Gall yr Awdurdod Lleol, mewn amgylchiadau priodol, ystyried gofyn am drwyddedau safle gan yr Awdurdod Trwyddedu yn ei enw ei hun ar gyfer ei fannau cyhoeddus ei hun yn y gymuned. Gall hyn fod o gymorth o ran hyrwyddo gweithgareddau ac adloniant diwylliannol ehangach.

3. Pwyllgor Trwyddedu

- 3.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Trwyddedu yn unol â'i gyfansoddiad.
- 3.2 Bydd Pwyllgor Trwyddedu'n sefydlu Is-bwyllgorau (paneli) yn cynnwys tri Aelod o'r Pwyllgor, er mwyn ystyried ceisiadau pan dderbynnir sylwadau gan unrhyw unigolyn a/neu Awdurdodau Cyfrifol.

- 3.3 Er lles llywodraethu da, pan fydd Cynghorydd sy'n Aelod o Bwyllgor Trwyddedu neu Is-bwyllgor Trwyddedu wedi bod â budd ariannol neu bersonol uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn unrhyw fater sydd o'u blaen, byddant yn cael eu gwahardd rhag cymryd unrhyw ran yn y broses benderfynu sy'n effeithio ar drwydded y safle. Ni fydd Cynghorydd yn eistedd ar Is-bwyllgor i ystyried cais yn eu 'Ward'.
- 3.4 Bydd pob dyfarniad dros benderfyniad trwyddedu gan y Pwyllgor Trwyddedu neu Is-bwyllgor Trwyddedu yn cynnwys rhesymau am y penderfyniad.
- 3.5 Bydd Swyddogion Trwyddedu'r Cyngor yn delio â phob cais am drwydded pan nad oes sylw perthnasol wedi'i dderbyn, neu pan fydd sylwadau wedi'u derbyn a bod y partion yn cytuno nad yw gwrandawriad yn angenrheidiol.
- 3.6 Caiff adroddiad cyfnodol ar arfer pwerau dirprwyedig ei wneud i'r Pwyllgor Trwyddedu.
- 3.7 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod aelodau a swyddogion perthnasol wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni'u dyletswyddau o dan y Ddeddf.
- 3.8 Mae materion sy'n ymwneud â Deddf Trwyddedu 2003 i'w datrys fel y nodir yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor o dan ei gyfansoddiad.

4. Egwyddorion sylfaenol

- 4.1 Mae trwyddedu'n ymwneud â rheoli safleoedd trwyddedig, clybiau cymwys a digwyddiadau dros dro yn unol â thelerau Deddf 2003, a gall amodau gael eu hatodi i drwyddedau, tystysgrifau a chaniatâd a fydd yn cwmpasu materion sydd o fewn rheolaeth deiliaid trwyddedau unigol.
- 4.2 Wrth ystyried yr amodau hyn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd ar safleoedd trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cyffredin yn yr ardal dan sylw.
- 4.3 I'r perwyl hwn, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod bod nifer o fecanweithiau ar wahân i'r swyddogaeth drwyddedu ar gael i fynd i'r afael â materion a all godi oddi ar y safle trwyddedig, gan gynnwys:

- Rheoliadau cynllunio;
- Mesurau parhaus er mwyn creu amgylchedd glân a diogel yn yr ardaloedd hyn mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr trafnidiaeth ac adrannau eraill o'r Cyngor;
- Dynodi rhannau o'r Fwrdeistref Sirol yn fannau lle na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus;
- Ymgysylltu'n rheolaidd gyda'r heddlu ynglŷn â materion gorfodi'r gyfraith sy'n ymwneud ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys rhoi hysbysiadau cosb benodedig, erlyn unigolion sy'n gwerthu alcohol i bobl sy'n feddw, atafaelu alcohol gan oedolion a phlant mewn mannau penodedig a chau safleoedd trwyddedig neu ddigwyddiadau dros dro yn syth ar sail anhrefn, neu debygrwydd y bydd anhrefn neu sŵn gormodol yn dod o'r safle;
- Pŵer yr heddlu, awdurdod cyfrifol arall neu barti sydd â diddordeb i ofyn am adolygiad o'r drwydded neu'r dystysgrif.

5. Parthau ac oriau trwyddedu

- 5.1 Mae paragraff 10.13 o ganllawiau cyfredol y Llywodraeth ar adran 182 yn datgan:

“Mae Deddf 2003 yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod trwyddedu wneud penderfyniadau ynglŷn â'r oriau pan all safleoedd gynnal gweithgareddau trwyddadwy fel rhan o weithredu ei ddatganiad o bolisi trwyddedu. Awdurdodau trwyddedu sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynglŷn ag oriau agor priodol yn eu hardaloedd yn seiliedig ar eu gwybodaeth leol ac mewn ymgynghoriad gydag awdurdodau cyfrifol. Serch hynny, rhaid i awdurdodau trwyddedu bob amser ystyried pob cais a rhaid iddynt beidio â gosod oriau agor trwyddedig a bennwyd ymlaen llaw, heb roi ystyriaeth i haeddiant pob cais yn unigol”

- 5.2 Aiff paragraff 13.41 o ganllawiau cyfredol y Llywodraeth ar adran 182 ymlaen i nodi:

“Fel rhan o'i bolisi trwyddedu, efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn dymuno ystyried defnyddio mesurau amgen megis amserau cau penodedig a pharthau o fewn ei ardal, ar yr amod bod mecanweithiau o'r fath wedi'u cyfiawnhau ar sail yr amcanion trwyddedu a'u bod yn rhagdybiol yn unig, gyda phenderfyniadau terfynol yn parhau i gael eu gwneud ar gyfer safleoedd unigol fesul achos, yn unol â'r hyn sy'n briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Byddai disgwyl i'r awdurdod trwyddedu gynnwys ei fwriad i

ddefnyddio mesurau o'r fath yn ei ddatganiad polisi trwyddedu ac i gyfiawnhau gwneud hynny i drefnu amserau cau er mwyn rheoli problemau yn yr economi gyda'r hwyr ar sail hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Yn yr un modd â chreu polisiâu effaith gronnus, byddai defnyddio mecanweithiau o'r fath yn creu rhagdybiaeth y gellir ei gwrthateb a fyddai'n berthnasol pe derbynnid sylwadau"

- 5.3 Wrth ddelio ag oriau trwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod y gofyniad i bob cais gael ei ystyried ar sail ei deilyngdod ei hun. Serch hynny, nid yw'r Awdurdod Trwyddedu am rwystro'n ormodol ddatblygiad economïau lleol llewyrchus a diogel sy'n digwydd fin-nos a gyda'r hwyr, sy'n bwysig ar gyfer buddsoddiad a chyflogaeth leol. Mae'r Awdurdod yn tybio ei bod yn hanfodol creu cydbwysedd priodol rhwng anghenion economaidd safleoedd trwyddedig a hawliau preswylwyr lleol i allu mwynhau lefel resymol o heddwch a thawelwch ar amserau sy'n sensitif o ran sŵn, ac nad yw unigolion eraill yn profi sgil effeithiau goblygiadau cynnar yr economi gyda'r hwyr. I'r perwyl hwn, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n barod i ystyried dynodi parthau yn ei ardal lle bydd oriau gweithredu ar gyfer gweithgareddau trwyddadwy yn sefydlog. Ar adeg paratoi'r polisi hwn, ni nodwyd unrhyw barthau. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried cyflwyno parthau o'r fath a chyfyngu ar oriau gweithgareddau trwyddadwy ar ôl derbyn sylwadau gan Awdurdodau Cyfrifol ac ar ôl ymgynghori â nhw. Cymhwysir hyn os caiff sylwadau eu cyflwyno ar gais, oni chaiff yr Is-bwyllgor Trwyddedu ei berswadio na fyddai'n briodol eu cymhwyso yn amgylchiadau'r cais.
- 5.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n nodi bod canllawiau'r Llywodraeth ar Adran 182 yn datgan y dylai "siopau ac archfarchnadoedd fod yn rhydd, fel arfer, i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle ar unrhyw adeg pan fyddant ar agor, oni bai bod rhesymau da, yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, i gyfyngu ar yr oriau hynny". Fodd bynnag, oherwydd y problemau a brofir mewn rhai cymunedau lleol yn y Fwrdeistref Sirol yn sgil argaeledd alcohol sydd ar werth mewn siopau lleol i'w yfed oddi ar y safle, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi penderfynu na fydd yn mabwysiadu'r safbwynt cyffredinol hwn, ac yn hytrach y bydd yn disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwydded werthu alcohol yn ystod oriau sy'n addas i'w hamgylchedd lleol penodol. Felly, dylai ymgeiswyr ystyried yr oriau y maent yn ceisio amdanynt yn ofalus wrth greu eu hatodlen weithredu, ac argymhellir trafod cais o'r fath gyda'r Awdurdodau Cyfrifol priodol.
- 5.5 Pan fydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno lle nad ydynt wedi dangos bod oriau masnachu alcohol priodol wedi cael eu hystyried, mae'n debygol y bydd sylwadau'n cael eu gwneud gan yr awdurdodau cyfrifol perthnasol a'r cyhoedd. Bydd hyn yn achosi oedi wrth wneud penderfyniad am y cais ac yn

arwain at gyfeirio'r cais at Is-bwyllgor Trwyddedu i'w benderfynu.

5.6 Unwaith y cyfeirir cais, neu drwydded gyfredol mewn achos o adolygiad, i Is-bwyllgor, gellir disgwyl y bydd yr Is-bwyllgor yn archwilio'r cais neu'r drwydded yn ofalus iawn ac yn dod i benderfyniad ynglŷn â'r oriau. Bydd oriau priodol yn cael eu hystyried er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac mae'n bosib y gellir gwrthod cais neu ddirymu trwydded.

5.7 Dylai ymgeiswyr a deiliaid trwydded cyfredol ystyried ardaloedd lleol lle mae'n bosib bod yfwr sy'n peri problemau neu lle mae'n hysbys bod grwpiau o bobl yn ymgynnull ac wedi achosi problemau gwrthgymdeithasol. Dylai ymgeiswyr ystyried yn ofalus iawn pa mor addas yw gwerthu alcohol yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos.

5.8 **Amser gorffen yfed/pwyllo**

Er na chafodd yr amser gorffen yfed traddodiadol ei fabwysiadu yn y Ddeddf, mae'r Cyngor yn argymhell y dylai ymgeiswyr safleoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol ar y safle ystyried cael cyfnod gorffen yfed/pwyllo. Yn ystod yr amser hwn gellir gostwng lefel y gerddoriaeth, a gall gwsmeriaid orffen eu diodydd a gwneud trefniadau am drafnidiaeth o'r safle. Mae'r Cyngor yn ystyried y bydd amser gorffen yfed o 30 munud yn helpu cwsmeriaid i wasgaru'n raddol ac yn lleihau unrhyw effaith negyddol posib i'r ardal o ganlyniad.

6. **Galw masnachol**

6.1 Nid mater i'r Awdurdod Trwyddedu fydd y galw masnachol am drwyddedau safleoedd ychwanegol (sy'n wahanol i effaith gronnus). Byddai'r materion hyn yn ystyriaeth benodol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gan ystyried gofynion y fasnach drwyddedig a gofynion y farchnad.

7. **Niwed Alcohol**

7.1 Mae sail dystiolaeth gryf am effeithiau defnyddio alcohol ar iechyd a lles. Mae alcohol yn cyfrannu at dros 60 o gyflyrau iechyd gwahanol gan gynnwys clefyd yr afu, syndrom alcohol y ffetws a sawl canser. Yn ogystal â chyfrannu at ystod eang o glefydau a chyflyrau, mae gwaith ymchwil yn dangos bod defnyddio alcohol yn gallu arwain at anafiadau a chyfrannu at gyflyrau iechyd meddwl, eu sbarduno a/neu eu gwaethygu. Yn ogystal, mae alcohol yn un o

brif achosion marwolaethau a salwch yng Nghymru, gyda thua 1,500 o farwolaethau'n digwydd o ganlyniad i alcohol bob blwyddyn (1 mewn 20 o'r holl farwolaethau).

- 7.2 Mae gwaith ymchwil wedi dangos dro ar ôl tro bod argaeledd economaidd, daearyddol a thymhorol alcohol yn cael effaith sylweddol ar lefelau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys niwed i iechyd. Mae arbrofion bywyd go iawn ac ymchwil wedi dangos bod ystod yr amserau a'r dyddiau y mae alcohol ar gael i'w brynu yn effeithio'n sylweddol ar y niwed a achosir gan alcohol. Mae rhwyddineb mynediad daearyddol hefyd yn cael effaith ar hynny, fel y dangosir gan gorff mawr o ymchwil i ddwysedd safleoedd gwerthu. Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd yn 2017 bod polisïau Trwyddedu sy'n cael eu gorfodi'n weithredol yn arwain at leihad yn nifer y derbyniadau i ysbytai mewn achosion sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae fframweithiau trwyddedu lleol a dulliau gweithredu a gorfodi o ran trwyddedu yn dylanwadu ar y ffactorau hyn i gyd.
- 7.3 Mae ymchwil wedi dangos mai'r dull mwyaf effeithiol a chost-effeithiol o fynd i'r afael â niwed camddefnyddio alcohol yw lleihau fforddiadwyedd, argaeledd a'r gallu i gael gafael ar alcohol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi bod lleihau argaeledd a'r gallu i gael gafael ar alcohol yn allweddol er mwyn lleihau niwed iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol.
- 7.4 Bwriad Deddf Trwyddedu 2003 yw rheoleiddio cyflenwad alcohol. Trwyddedu, felly, yw'r mecanwaith allweddol ar gyfer rheoleiddio argaeledd alcohol, drwy reoli pa amser a dyddiau'r wythnos y gellir gwerthu alcohol, y safleoedd sy'n gallu cyflenwi alcohol a'r amodau ar gyfer ei werthu.
- 7.5 Caerffili sydd â'r boblogaeth fwyaf yng Ngwent, sef 181,019. Mae pobl wedi'u gwasgaru'n eang ymhlith 50 o drefi bach a phentrefi ac mae'r prif aneddiadau'n adlewyrchu treftadaeth lofaol yr ardal i raddau helaeth. Mae gan Gaerffili economi sy'n ehangu ac mae'n elwa ar hynny drwy gysylltiadau trafnidiaeth da â Chaerdydd, ond mae ganddi lefelau sylweddol o ddiweithdra ac iechyd gwael.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n cydnabod yr effaith negyddol sylweddol mae alcohol yn ei chael ar iechyd ein preswylwyr. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y niferoedd derbyn i ysbytai mewn achosion o salwch a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol (gweler isod).

Mae data alcohol a rannwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019 yn dangos bod gan ardal awdurdod lleol Caerffili:

- Y gyfradd uchaf o dderbyniadau sy'n benodol oherwydd alcohol ar gyfer dynion a merched o dan 18 oed o gymharu â'r pum ardal Awdurdod Lleol yng Ngwent, a chyfraddau llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Cyfraddau sylweddol uwch o dderbyniadau sy'n benodol oherwydd alcohol na'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2017-18, a'r gyfradd uchaf ond un o gymharu ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Ngwent.
- Y gyfradd uchaf ond un o dderbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol (eang) o gymharu ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Ngwent, a'r bedwaredd ardal awdurdod lleol uchaf yng Nghymru o gymharu â phob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae'r lefel hon yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer dynion a merched.
- Y gyfradd uchaf o farwolaethau sy'n benodol i alcohol o gymharu ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Ngwent, a'r bedwaredd ardal awdurdod lleol uchaf yng Nghymru. Mae marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol wedi bod ar gynnydd yng Nghaerffili ers 2013-15 ac maent yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac roedd marwolaethau o glefyd yr afu yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2015-17.
- Lefelau tebyg o adrodd am yfed uwchlaw'r canllawiau i oedolion yn 2018-19¹ o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol a rhanbarthol. Yn 2018-19, dywedodd 18% o oedolion awdurdodau lleol Gwent eu bod wedi yfed uwchlaw'r canllawiau ar o leiaf un diwrnod yn yr wythnos ddiwethaf, o gymharu â Chaerffili, sef 18.6%.

7.6 Yng nghyd-destun hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr gynnig amodau trwyddedu er mwyn lliniaru'r effaith gall eu safle ei chael ar iechyd a lles eu cwsmeriaid, y gymdogaeth a'r gymuned yn ehangach. Er mwyn gweld enghreifftiau o amodau trwyddedu sy'n gallu hyrwyddo iechyd a lles, gellir cyfeirio at 'Gronfa Amodau Model' Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

¹ Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2019

- 7.7 Yn ogystal, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr ystyried yr effaith y gall eu safle ei chael ar bobl sy'n agored i gamddefnyddio alcohol, yn enwedig plant a phobl ifanc ac yfwyr problemus. Mae gwasanaethau trin problemau alcohol sydd wedi'u comisiynu wedi'u lleoli yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Gall argaeledd alcohol yn agos at wasanaethau triniaeth greu problemau penodol ar gyfer darparwyr triniaeth. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr ystyried a lliniaru'r niwed drwy gynnwys amodau trwyddedu pan fydd eu safle'n agos at leoliad gwasanaethau triniaeth ac ardaloedd lle gall plant a phobl ifanc fod yn ymgynnull, megis ysgolion, clybiau ieuencid a pharciau.

8. Cyffuriau

- 8.1 Mae niweidiau camddefnyddio cyffuriau'n niferus, ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i niweidiau iechyd. Roedd lefelau marwolaethau oherwydd cyffuriau ar eu uchaf erioed yn 2018-19, gyda marwolaethau oherwydd gwenwyn cyffuriau wedi codi 78% dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'n ymddangos bod marwolaethau oherwydd cyffuriau'n digwydd yn fwyfwy aml ymysg defnyddwyr cyffuriau hamdden.
- 8.2 Mae'r farchnad gyffuriau yng ngwledydd Prydain yn esblygu'n gyflym iawn wrth i gryfder a phurdeb cyffuriau stryd cyffredin barhau i godi, a bod ystod ehangach o sylweddau ar gael. Mae gan drwyddedu rôl o ran lleihau niwed camddefnyddio cyffuriau yn yr Economi Gyda'r Hwyr ac yn ein safleoedd trwyddedig.
- 8.3 Lle bydd achosion o bryder, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl gweld tystiolaeth bod polisi cyffuriau wedi'i roi ar waith a'i adolygu.
- 8.4 Yng nghyd-destun hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ar gyfer atal troseddau ac anhrefn a sicrhau diogelwch y cyhoedd, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwydded:
- Gymryd camau rhesymol i atal cyffuriau rhag cyrraedd safleoedd trwyddedig
 - Cymryd camau rhesymol i atal cyffuriau rhag newid dwylo ar y safle
 - Hyfforddi staff i adnabod a deall arwyddion o gamddefnyddio cyffuriau fel y gellir cymryd camau ymarferol i ddelio ag achosion sy'n digwydd
 - Penodi staff sydd wedi'u hyfforddi'n addas i ddelio ag achosion sy'n ymwneud â chyffuriau
 - Arddangos gwybodaeth briodol i godi ymwybyddiaeth am gyffuriau i gwsmeriaid

- Cynnig ystafell cymorth cyntaf ac offer cymorth cyntaf, gan gynnwys diffibriliwr mewn lleoliadau mwy
- Cyflogi staff sydd wedi'u hyfforddi i helpu ag achosion meddygol
- Gweithredu polisi gwahardd priodol

8.5 Ar gais Heddlu Gwent, bydd angen i safleoedd trwyddedig atafaelu, cadw a dogfennu unrhyw gyffuriau sy'n cael eu darganfod, gyda llwybr archwilio clir a phroses ildio yn unol â pholisi ysgrifenedig Heddlu Gwent. Yn ogystal, er budd atal Trosedd ac Anhrefn, bydd Heddlu Gwent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i safleoedd trwyddedig ganiatáu defnydd o beiriant Tracio ION ar y safle er mwyn canfod y mannau lle gall cyffuriau fod yn cael eu defnyddio ar y safle.

8.6 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod nad yw camddefnyddio cyffuriau yn rhywbeth sy'n berthnasol i bob safle trwyddedig. Fodd bynnag, mae wedi ymrwmo i leihau a chael gwared ar ddefnydd o gyffuriau o safleoedd trwyddedig lle bo'n bosib fel rhan o'i rôl yn hyrwyddo'r amcan trwyddedu trosedd ac anhrefn. Mae'r awdurdod trwyddedu'n disgwyl i bob deiliad trwydded gefnogi'r nod hwn yn weithredol yn y ffordd maent yn cynllunio, yn rheoli ac yn gweithredu safleoedd.

8.7 Os derbynnir sylwadau perthnasol i gais am grant neu amrywiad i drwydded, gallai amodau arbennig gael eu sefydlu er mwyn helpu i atal cyflenwad neu ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau rheoledig. Gofynnir am gyngor ynglŷn ag amodau gan yr heddlu neu unrhyw sefydliad perthnasol arall sy'n cymryd rhan mewn gwaith rheoli cyffuriau rheoledig neu sy'n darparu cymorth a/neu driniaeth i ddefnyddwyr cyffuriau.

8.8 Mewn safleoedd lle mae camddefnyddio cyffuriau'n peri problem a lle bydd unrhyw awdurdod cyfrifol neu unigolyn arall yn gwneud cais i adolygu trwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu'n tybio bod hyn yn ddifrifol iawn a bydd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r ystod eang o opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys atal a dirymu'r drwydded yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan yr ysgrifennydd gwladol. Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod bod pob achos yn unigryw a byddant yn gwneud penderfyniad ar sail ffeithiau a rhinweddau pob achos yn unigol.

9. Amcanion Trwyddedu

9.1 Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Trwyddedu o dan y Ddeddf i weithredu ei swyddogaethau mewn modd sy'n hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Yr amcanion trwyddedu (ac mae gan bob un bwysigrwydd cyfartal) yw:

- Atal troseddu ac anhrefn;

- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus;
- Diogelu plant rhag niwed.

9.2 Cydnabyddir nad y swyddogaeth drwyddedu yw'r prif ddull er mwyn sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n parhau i weithio mewn partneriaeth â'i awdurdodau cyfagos, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, Mewnfudo, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, busnesau lleol, deiliaid trwydded a thrigolion lleol er mwyn hyrwyddo'r amcanion hyn.

10. Atal troseddu ac anhrefn

10.1 Gall safleoedd trwyddedig, yn enwedig y rheini sy'n cynnig adloniant, alcohol a lluniaeth gyda'r hwyr neu'n gynnar yn y bore ar gyfer nifer fawr o bobl, fod yn ffynhonnell problemau trosedd ac anhrefn.

10.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i atodlenni gweithredu (gweler adran 27) fynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffordd foddhaol, o ddyluniad y safle i weithrediad y busnes o ddydd i ddydd. Rhwir manylion am y ffactorau y bydd angen eu hystyried fel rhan o'r atodlenni gweithredu yn y Polisiâu Trwyddedu yn ogystal â materion i'w hystyried wrth benderfynu ar geisiadau, sydd yn yr atodiad i'r polisi hwn ac yn y nodiadau Canllawiau i ymgeiswyr.

10.3 Argymhellir y dylai ymgeiswyr geisio cyngor swyddogion trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r heddlu, yn ogystal ag ystyried, lle bo'n briodol, bolisiâu cynllunio a thrafnidiaeth leol, a strategaethau twristiaeth a diwylliant ac atal troseddu, wrth baratoi eu cynlluniau a'u hatodlenni gweithredu.

10.4 Dylai'r Deiliad Trwydded/ymgeisydd hefyd ddefnyddio'i brofiad a'i adnabyddiaeth o'i gwsmeriaid a'i leoliad wrth ddrafftio atodlen weithredu, a fydd yn dod yn sail i'r amodau ar y drwydded wedi hynny. Gall methu â gwneud hyn arwain at sylwadau gan yr Awdurdod, awdurdod cyfrifol neu unigolyn arall. Efallai y bydd ymgeiswyr yn dymuno ystyried y canlynol a chynghorir nhw i gyfeirio at 'Gronfa Amodau Model' yr Awdurdod wrth ystyried gwneud cais.

- A oes yna deledu cylch cyfyng? Os oes, pa fannau sy'n cael eu recordio, oes ganddo'r gallu i recordio wyneb llawn clir cwsmeriaid sy'n dod i mewn, a yw'n recordio'r man archwilio cwsmeriaid wrth y fynedfa? Am ba mor hir caiff recordiadau eu cadw, pa mor hawdd ydy hi i'w cyrchu, i greu copïau ohonynt neu i lawrlwytho delweddau os gofynnir amdanynt gan yr Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu?

- A oes staff drws Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) wedi'u cyflogi a pha wiriadau a wneir i ddilysu'r drwydded SIA? Pa gofnodion sy'n cael eu cadw o wiriadau SIA, o'r polisi chwilio, y polisi mynediad, o gyfyngu ar gwsmeriaid sy'n defnyddio mannau awyr agored er enghraifft mannau ysmegu, o amserau cyflogi'r SIA a'u hyfforddiant?
- Oes gweithdrefn sganio Cerdyn Adnabod wrth fynd i mewn i'r safle? A fydd polisi 'Dim Cerdyn Adnabod, Dim Mynediad' yn ei le?
- Oes yna bolisi clir am gyffuriau ac arfau? Oes yna hyfforddiant rheolaidd wedi'i ddogfennu o'r polisi hwn sy'n cael ei ddilyn gan staff pan fydd cyffuriau/arfau'n cael eu hatafael neu eu storio? A yw mannau neu arwynebau wedi'u dylunio er mwyn atal y tebygolrwydd y bydd cyffuriau'n cael eu defnyddio ar y safle?
- A yw cwpanau plastig neu wydrau gwydn wedi cael eu hystyried ar gyfer gweini alcohol, a fydd poteli gwydr yn cael eu pasio i'r cwsmer dros y bar? A oes cyfyngiadau ynghylch mynd â diodydd y tu allan?
- A oes cynllun profi oedran ar waith, a oes gan y safle bolisi her 25? A yw staff yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd ynglŷn â'r polisi hwn ac a yw'r hyfforddiant wedi'i ddogfennu?

10.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod, er mai Heddlu Gwent a gwasanaethau cyfiawnder troseddol eraill sy'n dioddef y baich adnoddau mwyaf yn sgil troseddau ac anhrefn y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig ag alcohol, bod effaith i'w chael hefyd ar y system iechyd. Mae presenoldeb a derbyniadau i ysbytai mewn achosion sy'n gysylltiedig ag alcohol yn creu effaith negyddol ar staff, cleifion eraill ac adnoddau prin y gwasanaeth iechyd. Mae anaf corfforol ac effeithiau seicolegol digwyddiadau treisgar yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a lles unigolion, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u cydweithwyr, staff ein gwasanaethau cyhoeddus a staff safleoedd trwyddedig sy'n delio â'r digwyddiadau hyn, a'r gymuned leol. Bydd Awdurdodau Cyfrifol yn gweithio gyda'i gilydd, yn rhannu'r holl ddata lleol sydd ar gael, ac yn defnyddio ffynonellau data'r gwasanaeth iechyd er mwyn hyrwyddo'r amcan trwyddedu hwn.

10.6 Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i leihau trosedd ac anhrefn ledled y Sir yn unol â'i ddyletswydd statudol o dan adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

10.7 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, drwy gael asiantaethau i weithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth, yn bwriadu nodi ac atal cam-fanteisio rhywiol, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Gall deiliaid trwydded helpu yn hyn o beth wrth iddynt ddod yn ymwybodol o ddioddefwyr o'r fath neu ddod i gysylltiad â nhw. Gall hyn fod mewn gwestai, bariau a bwytai, siopau prydau

parod gyda'r hwyr, siopau sy'n gwerthu alcohol neu safleoedd trwyddedig eraill. Mae deiliaid trwydded, a staff sydd wedi'u cyflogi mewn safleoedd trwyddedig, mewn sefyllfa ddelfrydol i helpu i ddiogelu pobl.

Mae caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn droseddau ac yn torri hawliau dynol sylfaenol, a gallent ddigwydd ar wahanol ffurfiau megis caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol. Dyma gwestiynau ac arwyddion y dylai deiliad trwydded a staff sy'n gweithio mewn safleoedd trwyddedig eu cadw mewn cof:

- A oes gan yr unigolyn unrhyw arwyddion corfforol o gamdriniaeth neu esgeulustod? Diffyg bwyd, dŵr, cwsg, gofal meddygol neu hanfodion eraill?
- Rydych yn gweld ymddygiad tuag at rywun sy'n codi pryder.
- A oes gan y dioddefwr basbort, dogfen adnabod neu ddogfennau teithio? A yw'r rhain yn cael eu cadw gan rywun arall?
- A yw'r dioddefwr yn ymddwyn fel petaent wedi cael eu cyfarwyddo neu eu hyfforddi gan rywun arall? A ydynt yn gadael i bobl eraill siarad pan fyddwch yn siarad â nhw'n uniongyrchol?
- A gafodd y dioddefwr eu recriwtio at un diben a'u gorfodi i ymgymryd â swydd arall? A gafodd eu costau cludiant eu talu gan hwyluswyr, ac a oes rhaid iddynt eu talu'n ôl drwy ddarparu gwasanaethau?
- A yw'r dioddefwr yn cael taliad bychan neu ddim tâl am eu gwaith? A oes rhywun arall yn rheoli eu henillion?
- A gafodd y dioddefwr eu gorfodi i gyflawni gweithredoedd rhywiol?
- A oes rhyddid i symud gan y dioddefwr? A oes hawl ganddynt i gysylltu â ffrindiau a theulu? A oes cyfyngiadau wedi'u gosod ar eu gallu i ryngweithio'n gymdeithasol?
- A yw'r dioddefwr neu'r teulu wedi cael eu bygwth y byddant yn cael eu niweidio os bydd y dioddefwr yn ceisio dianc?
- A yw'r dioddefwr wedi'u clymu gan ddyled, neu mewn sefyllfa o fod yn ddibynnol ar rywun?

Os oes gan y deiliad trwydded bryderon, rhaid iddynt adrodd am y mater i'r llinell gymorth Caethwasiaeth Fodern drwy ffonio 08000 121 700 neu fynd i'r wefan <https://www.modernslaveryhelpline.org/report> neu gallant adrodd i'r Adran Drwyddedu drwy ffonio 01443 866750 neu e-bostio trwyddedu@caerffili.gov.uk. Os oes rhywun mewn perygl enbyd, dylid galw'r Heddlu ar 999.

Yn ogystal, rhaid bod gan yr holl staff sydd wedi'u cyflogi yng ngwledydd Prydain yr hawl i weithio yma. Gall cyflogi rhywun yn anghyfreithlon heb wneud y gwiriadau cywir arwain at sancsiynau cadarn yn erbyn y deiliad

trwydded.

11. Atal niwsans cyhoeddus

- 11.1 Mae gan safleoedd trwyddedig botensial sylweddol i effeithio'n andwyol ar bobl sy'n byw ac yn gweithio (gan gynnwys y rheini sy'n cynnal busnes) yn yr ardal o amgylch y safle, ac ymhellach i ffwrdd, drwy niwsans cyhoeddus sy'n deillio o'u gweithredoedd. Gan hynny, mae'n bwysig wrth ystyried hyrwyddo'r amcan trwyddedu hwn, bod yr Awdurdodau Trwyddedu a'r Awdurdodau Cyfrifol yn ffocysu ar effaith gweithgareddau trwyddadwy ar y safle penodol ar y partïon hyn, a allai fod yn anghymesur ac yn afresymol.
- 11.2 Mae diffiniad o'r hyn y gellir ei ystyried yn 'niwsans cyhoeddus' posib neu wirioneddol i'w dehongli'n unol â'i ystyr mewn cyfraith gyffredin fel sydd wedi'i sefydlu drwy gyfraith achos berthnasol. Dyna'r dehongliad y bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ei weithredu wrth ystyried materion o'r fath. Mae'r materion sy'n cael eu derbyn fel rhai sy'n achosi 'niwsans cyhoeddus' yn gynnwys sŵn, llygredd golau, drewdod a sbwriel. Gall hefyd ddigwydd oherwydd effeithiau andwyol llwch, pryfed, croniadau neu unrhyw sylwedd arall y penderfynir ei fod yn cael effaith negyddol ar amgylchedd byw a gweithio pobl eraill sy'n byw ac yn gweithio yn ardal y safle trwyddedig.
- 11.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod bod cyfyngu ar y niwsans cyhoeddus a allai fod yn gysylltiedig â safleoedd trwyddedig a'u gweithrediad yn ffactor pwysig ar gyfer iechyd a lles.
- Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod y cysylltiadau pwysig ag iechyd a lles sy'n deillio o niwsans cyhoeddus o ran aflonyddu ar gwsg, straen a achosir gan niwsans a llygredd. Gall aflonyddu ar gwsg a straen ychwanegu at broblemau iechyd meddwl a chorfforol preswylwyr, a'u lles yn ehangach. Gall diffyg cwsg gael effaith ar y system imiwnedd a gall gyfrannu at glefyd y galon a diabetes. Gall diffyg cwsg hefyd gyfrannu at bryder ac iselder. Gall straen gyfrannu at bryder ac iselder, ac at glefydau cardiofasgwlaidd.
- Dylai ymgeiswyr ystyried yr effaith bosib y bydd ei safle'n ei chael ar niwsans cyhoeddus, yn enwedig o ran sŵn, a dylent roi mesurau lliniaru ar waith.
- 11.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr am drwyddedau safleoedd a thystysgrifau safleoedd clwb fod wedi gwneud ymholiadau ac ystyriaethau perthnasol ynglŷn â'r ardal leol cyn cyflwyno'u cais. Bwriad hyn yw galluogi'r ymgeisydd i ystyried y rheolaethau mwyaf addas i'w gynnwys yn yr atodlen weithredu, gyda'r nod o sicrhau nad yw eu gweithgareddau'n tanseilio'r amcan trwyddedu o ran atal niwsans cyhoeddus. Mae'n bwysig cydnabod nad yw effeithiau gweithgaredd trwyddadwy wedi'u cyfyngu i'r tu mewn i

adeilad. Mae'n anochel bod yr effaith yn ehangach wrth i bobl deithio i'r safle ac oddi yno neu wrth iddynt ymgynnull y tu allan tra bod y safle ar agor. Y ffordd orau o reoli niwsans yw drwy ystyried yn ofalus addasrwydd y safle a ddewiswyd ac unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol yn gynnar.

11.5 Caiff ymgeiswyr eu hannog i ddangos yn eu Hatodlen Weithredu bod mesurau addas a digonol wedi cael eu hystyried ac y byddant yn cael eu gweithredu a'u cynnal er mwyn atal niwsans cyhoeddus. Pan fydd safle addas yn cael ei nodi, dylid paratoi atodlenni gweithredu ar sail asesiad risg o'r ffynonellau niwsans posib a achosir gan weithrediad y safle i'r rhai y gallai eu gweithgareddau effeithio arnynt. Dylai'r atodlen weithredu ddangos dealltwriaeth o lefel risg y niwsans a chynnwys mesurau cadarnhaol i reoli unrhyw risg bosib.

11.6 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n argymhell bod deiliaid trwydded yn gosod safon uchel o reolaeth er mwyn lleihau'r posibilrwydd o niwsans cyhoeddus a allai ddeillio o'r ffordd maent yn gweithredu'r safle, yn enwedig:

- pan fyddant wedi'u lleoli mewn ardal breswyl neu ardal sy'n sensitif i sŵn; neu
- pan fydd oriau agor estynedig yn cael eu cynnig.

11.7 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod bod y rheolaeth sydd gan ddeiliad trwydded dros ei gwsmeriaid yn lleihau y tu hwnt i'r ardal gyfagos o amgylch y safle trwyddedig, a bod unigolion sy'n ymgymryd ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn atebol am hynny eu hunain. Serch hynny, anogir ymgeiswyr i ystyried y camau y gallent eu cymryd fel deiliad trwydded cyfrifol er mwyn lliniaru effaith andwyol bosib eu cwsmeriaid. Unwaith eto, dylid defnyddio'r atodlen weithredu er mwyn dangos dealltwriaeth o'r risgiau posib a'r mesurau cadarnhaol y gellir eu rhoi ar waith er mwyn rheoli problemau o'r fath.

11.8 Anogir ymgeiswyr i ymgysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu ac Awdurdodau Cyfrifol perthnasol eraill (megis lechyd yr Amgylchedd) yn gynnar yn y broses a chyn cyflwyno cais, lle bynnag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Bydd yr Awdurdodau hyn yn gallu cynnig cyngor am fesurau rheoli priodol y gellir eu rhoi ar waith a'u cynnwys yn yr atodlen weithredu er mwyn lliniaru'r risgiau posib o atal niwsans cyhoeddus rhag digwydd.

11.9 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rheoli Sŵn a Seinwedd.**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y cyfeirir ati o hyn

allan fel Deddf Llesiant 2015) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol, gan gynnwys yr Awdurdod Trwyddedu, i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy sydd â'r nod o gyflawni saith amcan lles rhagnodedig fel rhan o'u gweithrediad sylfaenol; mae hyn yn cynnwys cyflawni eu swyddogaeth Drwyddedu. Un o'r conglfeini i'w hystyried yw rheoli sŵn a'i effaith ar iechyd a lles.

- 11.10 Ar hyn o bryd, nid yw'r canllaw Trwyddedu Statudol a gyflwynwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn cynnig unrhyw gyfeiriad at y modd y dylai Awdurdodau Trwyddedu roi sylw i ofynion anghenion Deddf Llesiant 2015 wrth weithredu, yn benodol sut y gallai fod yn berthnasol i hyrwyddo'r Amcan Trwyddedu, sef Atal Niwsans Cyhoeddus. Serch hynny, mae effaith sŵn wedi'i chydabod yn glir yng Nghynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023 Llywodraeth Cymru. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw i'r cynllun gweithredu hwn wrth wneud penderfyniad ar gais (gweler adran 17 Integreiddio Strategaethau isod).

12. Diogelwch y cyhoedd

- 12.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau nad yw diogelwch unrhyw unigolyn sy'n ymweld â safle trwyddedig neu sy'n gweithio yno o dan unrhyw fygythiad. Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos yn eu Hatodlenni Gweithredu bod mesurau addas a digonol wedi'u nodi sy'n gweddu i arddull a chymeriad unigryw eu safleoedd a'u digwyddiadau, ac y byddant yn cael eu gweithredu a'u cynnal er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd. Cynghorir ymgeiswyr i geisio cyngor gan wahanol sefydliadau, megis swyddogion gorfodi iechyd a diogelwch Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ac ati, cyn paratoi eu cynlluniau a'u hamserlenni, yn enwedig mewn achosion lle darperir adloniant rheoledig.
- 12.2 Cyflwynodd Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ofyniad, sef bod yn rhaid i unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am reoli safle gynnal asesiad addas a digonol o'r risgiau y gallai pobl eu hwynebu at ddiben nodi rhagofalon tân cyffredinol sydd angen eu cymryd. Gan hynny, ni chaniateir gosod unrhyw amodau ar awdurdodiad pan mae'n ymwneud â diogelwch tân yn uniongyrchol. Disgwylir y bydd deiliaid awdurdodiad yn cynnal asesiad risg trylwyr fydd hefyd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n aml. Dylid cadw'r asesiad risg ar y safle a dylai fod ar gael ar gais gan unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Cyngor.
- 12.3 Pan fydd ymgeisydd yn nodi problem yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd sydd heb ei chwmpasu gan ddeddfwriaeth gyfredol, dylai'r ymgeisydd nodi'r

camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd yn yr atodlen weithredu.

Gan ddibynnu ar arddull a chymeriad y safle a/neu ddigwyddiadau, gallai'r materion canlynol fod yn berthnasol:

- Faint o bobl sy'n dod i'r safle/lefelau diogel o ran capasiti (gall ffactorau gynnwys mynediad ac allanfeydd, llif pobl o amgylch y safle, lefelau cysur, darpariaeth eistedd, ardaloedd dawnsio, hygyrchedd bariau ac ati);
- Oed, cyflwr, dyluniad a chynllun y safle, gan gynnwys ffyrdd o ddianc mewn argyfwng;
- Natur y gweithgareddau i'w cynnal, ac yn enwedig gwerthu neu gyflenwi alcohol a/neu ddarpariaeth cerddoriaeth a dawnsio, gan gynnwys a yw'r gweithgareddau hynny'n rhai dros dro neu barhaol;
- Oriau gweithredu, a gwahaniaethu rhwng oriau agor a'r oriau pan gynigir y gweithgareddau trwyddadwy;
- Proffil cwsmeriaid (e.e. oedran, anabledd ac ati);
- Defnydd o effeithiau arbennig megis goleuadau laser, offer pyrotechnegol, peiriannau mwg, peiriannau swigod ac ati;
- Trydanwaith a gwresogi fel rhan o'r asesiad risg.

12.4 Ystyrir bod yr enghreifftiau canlynol o fesurau rheoli yn bwysig, a dylai ymgeiswyr eu hystyried yn eu Hatodlenni Gweithredu, gan roi sylw i'r math penodol o safle a/neu ddigwyddiadau -

- Asesiadau risg addas a digonol;
- Rheolaeth effeithiol a chyfrifol o safleoedd;
- Darpariaeth o nifer ddigonol o bobl sydd wedi'u cyflogi neu sydd â chyfrifoldeb dros sicrhau diogelwch pawb sy'n dod i'r safle neu'r digwyddiad;
- Cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol o'r bobl sydd wedi'u cyflogi neu sydd â chyfrifoldeb dros sicrhau diogelwch pawb sy'n dod i'r safle;
- Mabwysiadu'r canllawiau arferion gorau (gellir cael cymorth drwy gysylltu â sefydliadau megis Iechyd yr Amgylchedd, Diogelwch Tân a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch);
- Darpariaeth effeithiol o deledu cylch cyfyng y tu mewn i'r safle ac o'i amgylch;
- Gweithredu mesurau rheoli torfeydd;
- Profi (ac ardystio lle bo'n briodol) gweithdrefnau, offer, systemau ac ati sy'n ymwneud â diogelwch yn rheolaidd;
- Cyfleusterau Cymorth Cyntaf a hyfforddiant priodol i staff ynglŷn â phryd i roi, a phryd i beidio â rhoi Cymorth Cyntaf.

- 12.5 Mae'r awdurdod yn argymhell y dylid ymgynghori ag arbenigwyr, e.e. swyddog diogelwch cymwysedig, er mwyn cynorthwyo ag asesiad o faterion diogelwch cyhoeddus (ac eithrio asesiad diogelwch tân, gan fod asesiad risg o'r fath yn ofyniad gorfodol).
- 12.6 Mae Heddlu Gwent yn hyrwyddo'r defnydd o gwpanau yfed polycarbonad er mwyn lleihau anafiadau a achosir naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol gan gwpanau gwydr. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r fenter hon a buasai'n cynghori unrhyw ymgeisydd neu ddeiliad awdurdodiad bod gwydrau gwydn yn aml yn colli eu gwydnwch drwy eu defnyddio'n aml, ac y dylent ystyried cyflwyno cwpanau yfed polycarbonad neu blastig yn unig. Pan fydd safle'n gysylltiedig â throedd ac anhrefn, mae'n bosib y byddai'r Cyngor hefyd yn argymhell na ddylid caniatáu i boteli gwydr agored gael eu hyfed ar y safle ac y dylid ardywallt y cynnwys cyn eu gweini i gwsmeriaid. Pwrpas hyn fyddai lleihau tebygolrwydd digwyddiadau lle gellid defnyddio poteli fel arfau.
- 12.7 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod bod yna gysylltiadau rhwng diogelwch y cyhoedd ac ieuchyd, er enghraifft anafiadau a gafwyd mewn safleoedd trwyddedig y mae angen triniaeth feddygol arnynt. Mae achosion o gwmpo sy'n gysylltiedig ag alcohol yn cyfrannu at dderbyniadau i ysbytai.
- Gall ystyried a nodi materion sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd mewn ymateb i gais trwyddedu fod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r problemau hyn drwy osod amodau ar drwydded neu, mewn achosion mwy eithafol, peidio â chaniatáu'r drwydded. Mae'n bosib y gallai'r Bwrdd Iechyd, fel Awdurdod Cyfrifol, gynnig tystiolaeth o nifer achosion, costau ac effeithiau materion diogelwch y cyhoedd lle bo'n briodol.

13. Diogelu plant rhag niwed

- 13.1 Nid oes dim yn y datganiad polisi hwn sy'n mynnu nac yn cyfyngu ar fynediad plant i safleoedd oni bai bod gofyniad sy'n drech ac yn angenrheidiol er mwyn atal niwed i blant. Mae meysydd a allai achosi pryder penodol yn cael eu trafod mewn rhan arall o'r polisi hwn.
- 13.2 Ac eithrio'r cyfyngiadau a nodir yn Adran 145, nid yw Deddf 2003 yn gwahardd plant rhag cael mynediad i unrhyw safle trwyddedig. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod y gall fod angen ystyried cyfyngiadau lle mae'n ymddangos bod hynny'n angenrheidiol er mwyn diogelu plant rhag niwed.
- 13.3 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gosod unrhyw amod sy'n ei gwneud yn ofynnol

yn benodol i blant gael mynediad i unrhyw safle. Lle nad oes cyfyngiad wedi'i roi, mater i safle neu glwb unigol fydd penderfynu caniatáu mynediad i blant.

- 13.4 Mae Deddf 2003 yn cynnwys nifer o droseddau sydd â'r nod o ddiogelu plant mewn safleoedd trwyddedig, a bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gweithio'n agos â'r heddlu a safonau masnach er mwyn sicrhau gorfodaeth briodol o'r gyfraith, yn enwedig o ran gwerthu a chyflenwi alcohol i blant.
- 13.5 Bydd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal gyda Swyddogion Amddiffyn Plant, Safonau Masnach a'r Bwrdd Iechyd Lleol am faterion diogelu plant rhag niwed.
- 13.6 Mae diogelu plant yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn drosedd sy'n gallu effeithio ar unrhyw blentyn, ar unrhyw adeg, yn unrhyw le - waeth beth fo'u cefndir ethnig neu gymdeithasol. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu bod y sawl sy'n cyflawni'r drosedd yn meithrin perthynas amhriodol gyda phobl ifanc ac yn defnyddio'u pŵer. Gall ddigwydd ar sawl ffurf, er enghraifft drwy berthynas sy'n ymddangos yn 'gydsyniol' gyda phartner hŷn lle byddant yn cael rhyw yn gyfnewid am sylw, anrhegion, arian, alcohol neu sigarennau. Mae trais, gorfodaeth a bygwth yn ffurfiau cyffredin o gam-fanteisio, gyda rhai plant sy'n agored i niwed yn cael cyffuriau neu'n cael eu gorfodi i werthu cyffuriau a/neu'n cael eu gorfodi i fod yn rhan o rwydwaith llinellau cyffuriau.

Gall gwestai, bariau a bwytai, siopau prydau parod gyda'r hwyr, siopau sy'n gwerthu alcohol neu safleoedd trwyddedig eraill ddod i gysylltiad â phlant o'r fath. Mae'r Awdurdod hwn yn annog y safleoedd hynny i gadw golwg am arwyddion o gam-fanteisio posib. Dyma gwestiynau ac arwyddion y dylai deiliad trwydded a staff eu cadw mewn cof:

- A yw'n ymddangos bod plentyn mewn perthynas ag unigolyn hŷn?
- A yw'n ymddangos bod y plentyn o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau?
- Ai oedolyn sy'n ceisio cuddio'r ffaith eu bod nhw gydag unigolyn ifanc sy'n archebu'r gwesty?
- Llawer o oedolion a phobl ifanc yn dod i'r gwesty nad yw'n ymddangos bod rheswm ganddynt dros fod yno, neu lefelau uchel o ymwelwyr yn mynd i ystafell yn y gwesty. Gwesteion yn symud i mewn ac allan o'r safle ar adegau anarferol.
- Gwesteion yn cyrraedd ac yn gofyn am rif ystafelloedd penodol heb wybod enw'r unigolyn sydd wedi archebu'r ystafell.

Er lles diogelwch plant, nid yw'r Cyngor yn cefnogi systemau mewngofnodi digyswllt (derbynfa rithwir) lle na fydd aelodau o staff yn cael cyswllt wyneb yn wyneb â chwsmeriaid mewn gwesty.

Os oes ganddynt bryderon, dylai'r deiliad trwydded a staff adrodd y mater i

Wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Caerffili drwy ffonio 0808 100 1727 neu e-bostio cyswlltacatgyfeirio@caerffili.gov.uk.

Os oes rhywun mewn perygl enbyd, dylid galw'r Heddlu ar 999.

- 13.7 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod bod plant a phobl ifanc mewn mwy o berygl nag oedolion pan ddaw hi at ddefnyddio alcohol, a gall yr effeithiau ar iechyd fod yn uwch pan fyddant yn digwydd. Mae plant a phobl ifanc hefyd yn fwy agored i fathau penodol o niwed mewn lleoliadau trwyddedig. Yn ogystal, mae dechrau yfed yn rheolaidd yn gynharach mewn bywyd yn cynyddu'r risg o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn ddiweddarach.
- Mae gan blant a phobl ifanc sawl bregusrwydd o ran yr effaith y gallai alcohol ei chael ar eu hiechyd a'u datblygiad. Mae'r lefelau o fregusrwydd a risg sy'n deillio o fod ar safle trwyddedig yn uwch, ac mae angen eu hystyried a rhoi sylw priodol iddynt mewn prosesau, arferion a pholisïau trwyddedu. Mae'n debygol y bydd effaith sylweddol ar y Bwrdd Iechyd os bydd plentyn neu unigolyn ifanc yn dioddef salwch, anaf neu ddibyniaeth o ganlyniad i gael mynediad at alcohol a safleoedd trwyddedig.
- Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn cydnabod effaith ddifrifol rhieni'n camddefnyddio alcohol ar blant o bob oedran, a'r goblygiadau hirdymor (h.y. profiadau andwyol mewn plentynod). Mae potensial i lefelau is o yfed alcohol niweidiol gan rieni gael effaith lesol ar leihau trallod i blant yn amgylchedd y cartref (e.e. lleihad mewn trais, yn enwedig cam-drin domestig).
- 13.8 Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl ifanc yn fwy agored nag oedolion i effeithiau andwyol alcohol oherwydd amrywiaeth o ffactorau corfforol a seico-gymdeithasol. O'r herwydd, cefnogir mentrau i atal gwerthu a chyflenwi alcohol i blant.

13.9 Mae'r Awdurdod yn disgwyl i safleoedd trwyddedig sy'n gwerthu a chyflenwi alcohol weithredu mesurau dilysu oedran er mwyn sicrhau y bodlonir yr amcan trwyddedu ar gyfer diogelu plant.

Er mwyn cefnogi'r broses dilysu oedran, mae'r Awdurdod yn argymhell yn gryf bod safleoedd yn gosod y mesurau canlynol ar waith er mwyn sicrhau dilysrwydd oedran wrth werthu alcohol -

- Bod 'Her 25' yn cael ei chefnogi fel rhan o'r cynllun dilysu oedran a sefydlir. Dylai'r cynllun ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i unrhyw unigolyn sy'n ceisio prynu alcohol ddangos tystiolaeth o'u hoedran os yw staff sy'n gwerthu neu'n cyflenwi alcohol yn amau eu bod o dan 25 oed.
- Bod tystiolaeth o'r cynllun (ar ffurf gweithdrefnau wedi'u dogfennu) yn cael ei chadw ac ar gael i'w harchwilio gan swyddogion awdurdodedig.
- Bod yr holl staff sy'n gwerthu alcohol yn cael hyfforddiant mewn cynlluniau dilysu oedran a gwerthu drwy ddirprwy, sef pan fydd rhywun yn ceisio prynu alcohol i unigolyn sydd o dan 18 oed. Bod cofnodion am hyfforddiant o'r fath yn cael eu cadw ar y safle a'u bod ar gael i'w harchwilio gan swyddogion awdurdodedig.
- Bod cofnod o ddigwyddiadau'n cael ei gadw, a bod manylion am bob achos o wrthod gwerthu alcohol ar sail oedran yn cael ei gofnodi. Bod y llyfr hwn yn cael ei adolygu'n fisol gan Oruchwylydd Penodedig y Safle a bod y camau a gymerwyd yn cael eu cofnodi yn y llyfr a'u cymeradwyo gan y Goruchwylydd. Rhaid cadw'r cofnod ar y safle a rhaid iddo fod ar gael i'w archwilio gan swyddogion awdurdodedig.
- Bod deiliad trwydded bersonol ar y safle ar bob adeg y cyflenwir alcohol.
- Bod Goruchwylydd Penodedig y Safle yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod alcohol yn cael ei arddangos mewn man y gellir ei fonitro neu ei oruchwilio bob amser gan staff, ac ar wahân i nwyddau sy'n debygol o gael eu prynu gan bobl o dan 18 oed.

14. Hawl i gyflwyno sylwadau

14.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr fynd i'r afael â'r amcanion trwyddedu yn eu hatodlen weithredu gan roi sylw i'r math o safle, y gweithgareddau trwyddadwy a fydd yn cael eu darparu, y gweithdrefnau gweithredol, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol. Drwy wneud hyn, gall y rheini sydd â hawl i gyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau asesu'n llawn y ffactorau a allai effeithio arnynt.

14.2 Caniateir i sylwadau perthnasol gael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol, neu bobl neu sefydliadau eraill sy'n eu cynrychioli, ond dylent ddatgan a ydynt yn gwneud sylwadau ar eu rhan eu hunain neu ar ran rhywun arall.

14.3 Mae diwygiadau i'r Ddeddf wedi mewnosod y term 'pobl eraill' yn lle 'parti sydd â diddordeb' fel rhywun sy'n gallu cyflwyno sylwadau, ac mae hefyd wedi dileu'r prawf cyffiniau ar gyfer preswylwyr a'r term penodol, cynghorydd. Mae hyn yn ehangu ar y bobl sy'n gallu gwneud sylwadau ac mae'n cynnwys, er enghraifft, y canlynol:-

- Preswylwyr sy'n byw ger y safle
- Pobl sydd â diddordeb yn y safle neu'r ardal gyfagos
- Cynghorwyr lleol
- Busnesau sydd â diddordeb yn y safle neu'r ardal gyfagos.
- Sefydliadau sydd â diddordeb yn yr ardal gyfagos, y safle neu'r gweithgareddau trwyddadwy.

Bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu a yw'r sylwadau'n berthnasol a/neu'n rhesymol, ac wrth wneud yr asesiad hwnnw bydd yn asesu'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n gwneud y sylw a'i berthynas â'r safle a/neu'r cyffiniau.

14.4 Er mwyn i sylwadau gael eu barnu'n berthnasol, bydd rhaid iddynt ymwneud ag egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Trwyddedu, felly bydd angen i unrhyw sefydliad neu unigolyn sydd am wrthwynebu unrhyw gais ddatgan a ydynt yn gwneud hynny ar sail:

- Atal troseddu ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus;
- Diogelu plant rhag niwed.

14.5 Bydd sylwadau afresymol, gwamal a blinderus yn cael eu diystyru. Gellir hefyd ddiystyru sylwadau sydd wedi'u gwneud ac sydd wedi cael eu hystyried mewn mannau eraill, er enghraifft fel gwrthwynebiad i gais cynllunio, petai ystyried sylwadau o'r fath yn golygu dyblygu gwaith.

14.6 Gellir derbyn deisebau os yw'r Awdurdod o'r farn bod pawb a lofnododd y ddeiseb yn deall goblygiadau'r hyn yr oeddent yn ei lofnodi. Gweler 28.24 isod am ragor o arweiniad.

15. Awdurdodau cyfrifol

15.1 Mae Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd yn pennu pwy sy'n awdurdodau cyfrifol a gaiff gyflwyno sylwadau ar geisiadau neu wneud cais i adolygu trwydded safle neu dystysgrif safle clwb, sef:

- Prif Swyddog yr Heddlu
- Yr Awdurdod Tân
- Yr awdurdod gorfodi ar gyfer iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Yr awdurdod cynllunio lleol
- Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal y risg o lygru'r amgylchedd neu o niwed i iechyd pobl
- Yr awdurdod lleol dros bwysau a mesurau
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r corff sy'n cynrychioli materion sy'n ymwneud â diogelu plant rhag niwed, sef y Bwrdd Diogelu Plant Lleol ar hyn o bryd
- Ar gyfer llongau: awdurdod mordwyaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd, neu Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain
- Y Bwrdd Iechyd Lleol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)
- Yr Awdurdod Trwyddedu (y Cyngor)
- Mewnfudo (Tîm Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref)

16. Pobl eraill

- 16.1 Mae'r newidiadau i Ddeddf Trwyddedu 2003 yn rhinwedd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 bellach wedi dileu'r prawf "cyffiniau" o Ddeddf 2003 ac, o ganlyniad, nid yw'r categorïau "parti sydd â diddordeb" yn bodoli bellach.
- 16.2 Felly, gall unrhyw unigolyn gyflwyno sylwadau ar gyfer mathau penodol o geisiadau fel "Person Arall". Fodd bynnag; rhaid i'r holl sylwadau ymwneud â'r amcanion trwyddedu ac ni chânt fod yn wamal neu'n flinderus.

17. Integreiddio strategaethau

- 17.1 Mae Canllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol i Ddeddf Trwyddedu 2003 yn datgan y dylai'r Awdurdod Trwyddedu amlinellu sut y bydd yn sicrhau integreiddiad priodol rhwng ei bolisi trwyddedu â pholisïau a strategaethau lleol sy'n ymwneud ag atal troseddau, cynllunio, trafnidiaeth, twristiaeth, cynlluniau cydraddoldeb, strategaethau diwylliannol ac unrhyw bolisi neu gynllun arall a gyflwynwyd ar gyfer rheoli canol trefi ac economïau gyda'r hwyr. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cytuno bod cydgysylltu ac integreiddio o'r fath yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau'r Cyngor ar gyfer creu economi ddiogel a bywiog gyda'r hwyr. Gall darnau eraill o ddeddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y gyfundrefn

drwyddedu. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried y canlynol pan fydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac wrth hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu:

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff eraill ystyried lleihau troseddu ac anhrefn. Mae adran 17 o'r Ddeddf yn datgan mai dyletswydd pob awdurdod fydd arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyladwy i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn, a'r angen iddo wneud popeth rhesymol i atal troseddu ac anhrefn yn ei ardal (gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol). Mae hyn yn cysylltu'n benodol â'r amcan trwyddedu o atal troseddu ac anhrefn a bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried pob mesur rhesymol sy'n mynd ati i hyrwyddo'r amcan trwyddedu hwn.

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi ystod eang o bwerau i awdurdodau lleol a'r heddlu i fynd i'r afael â digwyddiadau o drosedd, anhrefn a niwsans a all effeithio ar breswylwyr. Cyflwynodd y Ddeddf orchmynion gwarchod mannau cyhoeddus, sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol ddynodi ardaloedd lle bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel yfed alcohol ar y stryd, yn cael ei wahardd. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i'r awdurdod lleol a'r heddlu i gau safle trwyddedig lle mae niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd. Felly, mae'r Ddeddf hon yn cefnogi ac yn ymroi i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu sydd yn Neddf Trwyddedu 2003.

Deddf Mewnfudo 2016

Roedd adran 36 ac Atodlen 4 o Ddeddf Mewnfudo 2016 yn diwygio Deddf Trwyddedu 2003 ac yn gwneud tîm Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref yn Awdurdod Cyfrifol sy'n ymwneud â'r amcan trwyddedu o ran atal troseddu ac anhrefn. Byddant yn arfer eu pŵer o ran bod yn ymgynghorai ar geisiadau newydd am drwyddedau ac o ran cael hawl mynediad i safleoedd trwyddedig gyda'r bwriad o weld a oes tramgwydd o dan unrhyw un o'r Deddfau Mewnfudo yn cael ei gyflawni ar safle trwyddedig. Yn bennaf, bydd hyn yn golygu canfod ac atal gweithwyr anghyfreithlon ar safle sydd â thrwydded alcohol neu drwydded gwerthu lluniaeth gyda'r hwyr. Mae'r drosedd o gyflogi pobl mewn safleoedd trwyddedig nad oes ganddynt hawl i weithio yng ngwledydd Prydain hefyd wedi'i rhestru yng nghanllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 11.27, sy'n ymdrin â gweithgarwch troseddol y bernir ei fod yn arbennig o ddifrifol a lle y dylai awdurdod trwyddedu ystyried dirymu trwydded safle hyd yn oed yn yr achos cyntaf. Mae'r Ddeddf hon yn amlwg yn cefnogi ac yn ymroi i hyrwyddo'r amcan trwyddedu o atal

troseddu ac anhrefn, a bydd yr awdurdod trwyddedu'n gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth Mewnfudo a Heddlu Gwent i orfodi hyn.

Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae dyletswydd ar y Cyngor o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i ddiogelu hawliau preswylwyr i breifatrwydd a bywyd teuluol (Erthygl 8), a hawliau deiliad trwydded i weithredu eu busnes heb ymyrraeth ormodol (Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf). Mae hyn yn hyrwyddo'r angen i'r awdurdod trwyddedu sicrhau cydbwysedd rhwng y ddwy egwyddor hyn wrth wneud penderfyniadau.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, i hybu cyfle cyfartal ac i feithrin perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu. Mae nodweddion gwarchodedig yn cynnwys oedran, anabledd, hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol. Wrth wneud penderfyniad, bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi sylw i hyn oherwydd y nod o sicrhau bod yr economi gyda'r hwyr yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb. Deddfwriaeth arall y bydd yr awdurdod trwyddedu yn ei hystyried -

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus, fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn amlwg yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae'r Ddeddf hon yn cysylltu'n benodol ag atal troseddu ac anhrefn a niwsans cyhoeddus. Mae'n cydnabod bod angen creu seinweddau priodol – yr amgylchedd acwstig cywir ar yr amser cywir ac yn y lle cywir. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried rheoli sŵn a seinweddau ac, yn benodol, y pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf hon, sef i) Hirdymor – pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd, ii) Integreiddio, iii) Cynnwys, iv) Cydweithio, a v) Atal. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu 'Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023'

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ynghylch-swn-a-seinwedd.pdf>

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ganlynol pan fydd yn penderfynu cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Trwyddedu. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol:-

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n ymdrin â sŵn a niwsans
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005 sy'n ymdrin â diogelwch tân
- Deddf Priffyrdd 1980 sy'n ymdrin â thrwyddedau caffi palmant.

- 17.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, cyn belled ag y bo modd, yn ceisio osgoi dyblygu gyda chyfundrefnau rheoleiddio eraill wrth ymdrin â'r swyddogaeth drwyddedu. Os bydd deddf arall sy'n bodoli eisoes yn gosod cyfrifoldebau statudol penodol ar gyflogwr neu weithredwr safle, ni fyddai'n briodol nac yn gymesur gosod yr un dyletswyddau neu ddyletswyddau tebyg ar ddeiliad trwydded y safle neu'r clwb. Unwaith y caiff disgresiwn yr Awdurdod Trwyddedu ei weithredu, dim ond pan fydd mesurau ychwanegol ac atodol yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu y bydd amodau priodol a chymesur yn cael eu hatodi i drwydded.
- 17.3 Gall polisïau, strategaethau, cyfrifoldebau a dogfennau canllaw eraill yr Awdurdod Lleol a'r Llywodraeth gyfeirio hefyd at y swyddogaeth drwyddedu, a gall yr Awdurdod Trwyddedu gysylltu â'r awdurdodau perthnasol neu ei gyfarwyddiaethau ynghylch y rhain. Er nad yw rhai o'r rhain efallai'n ymwneud yn uniongyrchol â hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, gallant effeithio'n anuniongyrchol arnynt.
- 17.4 Bwriad yr Awdurdod Lleol yw y bydd, drwy ei Bwyllgor Trwyddedu, yn monitro sut mae'r materion hyn, a nodir uchod, yn effeithio ar swyddogaeth trwyddedu'r Awdurdod a'i swyddogaethau eraill, er mwyn iddo allu ceisio cydlynu ac integreiddio ei swyddogaeth drwyddedu â strategaethau perthnasol eraill.
- 17.5 O ran strategaethau diwylliannol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu, er enghraifft drwy ymgynghori'n rheolaidd â swyddogion Digwyddiadau, Cyrchfannau a Hamdden leol, yn ystyried a yw darparu cerddoriaeth fyw a gweithgareddau diwylliannol ac adloniant yn cael eu hatal gan ofynion trwyddedu lleol. Os oes unrhyw arwydd bod hyn yn wir, gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried ymchwilio i sut gallai'r sefyllfa gael ei gwyrddroi, a chaiff, os bydd angen yn sgil yr ymchwiliadau hynny, ystyried diwygio'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu.

Perthynas â'r Broses Gynllunio

- 17.6 Fel arfer, dylai ceisiadau am drwyddedau safle ar gyfer safle masnachol parhaol fod gan fusnesau sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer yr eiddo dan sylw. Fodd bynnag, gellir gwneud cais am drwyddedau cyn i unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol gael ei geisio neu ei ganiatáu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
- 17.7 Argymhellir yn gryf bod darpar ymgeiswyr am drwydded yn cysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn gwneud cais am drwydded er mwyn gwirio neu geisio cyngor ar unrhyw ganiatâd cynllunio neu unrhyw amodau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r

safle. Yn amlwg, mae'n gwneud synnwyr gweithredol sicrhau bod cynllunio a thrwyddedu yn gydnaws.

- 17.8 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n dymuno pwysleisio na fyddai caniatâd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu a Gamblo ar gyfer unrhyw amrywiad ar drwydded sy'n ymwneud â newid materol i adeilad, yn rhyddhau'r ymgeisydd o'r angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio neu ganiatâd rheoli adeiladu lle bo hynny'n briodol.
- 17.9 Bydd yr Awdurdod Lleol yn anelu i wahanu cyfundrefnau cynllunio, rheoli adeiladu a thrwyddedu yn briodol er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac aneffeithlonrwydd. Mae'r cyfundrefnau Trwyddedu a Chynllunio yn ystyried materion gwahanol (er eu bod yn cydberthyn).
- 17.10 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n osgoi trin ceisiadau trwyddedu fel cyfle i ail drafod ceisiadau cynllunio, ac ni fydd fel arfer:
- yn torri ar draws penderfyniadau a wneir gan Bwyllgor Cynllunio'r Awdurdod Lleol nac yn dilyn penderfyniadau am apeliadau a wnaed gan y Pwyllgor hwnnw; nac
 - yn gosod amodau trwyddedu lle y gosodwyd yr un amodau neu rai tebyg ar ganiatâd cynllunio.
- 17.11 Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu wedi'i rwymo gan benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Cynllunio, nac i'r gwrthwyneb.
- 17.12 Os bydd amser cau wedi'i osod fel un o amodau caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio safle at ddibenion masnachol sy'n wahanol i'r oriau trwyddedu, rhaid i'r deiliad trwydded gadw at yr amser cau cynharach er mwyn osgoi unrhyw achos o dorri ei ganiatâd cynllunio - y gall fod yn agored i'w erlyn am hynny o dan gyfraith gynllunio (ac i'r gwrthwyneb lle mae'r oriau trwyddedu'n gorffen yn gynt na'r caniatâd cynllunio).

18. Trwydded alcohol bersonol

- 18.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod mai ychydig iawn o ddisgresiwn sydd ganddo wrth roi trwydded bersonol. Yn gyffredinol, ar yr amod bod ymgeisydd yn 18 oed neu'n hŷn, â hawl i weithio yng ngwledydd Prydain, bod ganddo gymhwyster cymeradwy, nad oes trwydded bersonol o'i eiddo wedi'i fforffedu o fewn 5 mlynedd i'r cais hwn ac nad oes ganddo euogfarnau troseddol perthnasol neu gosb sifil a dderbyniwyd ar ôl 6 Ebrill 2017 am fater mewnfudo, rhaid i'r cais gael ei gymeradwyo.
- 18.2 Rhaid bod gan unigolion sy'n gwneud cais am drwydded bersonol hawl i weithio

yng ngwledydd Prydain. Ni ddylid rhoi trwyddedau i bobl sydd ym Mhrydain yn anghyfreithlon, nad oes hawl ganddynt i weithio, neu sydd â hawl i weithio ond sy'n destun amod sy'n eu gwahardd rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â chynnal gweithgaredd trwyddadwy.

- 18.3 Pan fo caniatâd mewnfudo ymgeisydd i fyw a gweithio ym Mhrydain yn gyfyngedig o ran amser, gellir rhoi trwydded bersonol ond bydd yn dod yn annilys pan ddaw'r caniatâd mewnfudo i ben. Os bydd y Swyddfa Gartref yn torri neu'n rhoi diwedd ar ganiatâd mewnfudo unigolyn, fe fydd unrhyw drwydded bersonol a roddwyd mewn perthynas â chais a wnaed ar 6 Ebrill 2017 neu ar ôl hynny, yn darfod yn awtomatig.
- 18.4 Os bydd ymgeisydd yn datgan ei fod wedi cael cosb fewnfudo neu wedi'i gollfarnu o drosedd mewnfudo neu drosedd dramor sy'n debyg i drosedd mewnfudo, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu hysbysu Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref (drwy dîm Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref).
- 18.5 Os oes gan ymgeisydd euogfarn berthnasol, gall yr Heddlu wrthwynebu'r cais. Os yw ymgeisydd wedi cael cosb fewnfudo neu wedi cael euogfarn am drosedd mewnfudo berthnasol ar 6 Ebrill 2017 neu ar ôl hynny, gall y Swyddfa Gartref wrthwynebu'r cais. Pan fydd gwrthwynebiad, rhaid cynnal gwrandawriad.
- 18.6 Anogir ymgeiswyr sydd ag euogfarnau sydd heb eu disbyddu am drosedd berthnasol, fel y nodir yn y Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf, i drafod eu cais gyda Swyddog Trwyddedu'r Cyngor a/neu'r Heddlu yn gyntaf.
- 18.7 Mewn gwrandawriad yn ymwneud â gwrthwynebiad i roi trwydded bersonol, neu ddirymu trwydded sy'n bodoli eisoes, bydd y Cyngor yn ystyried yn ofalus a fydd rhoi neu barhau â'r drwydded o fudd i'r amcan atal troseddu. Bydd yn ystyried difrifoldeb a pherthnasedd unrhyw euogfarn(au), y cyfnod sydd wedi mynd heibio ers i'r drosedd gael ei chyflawni ac unrhyw amgylchiadau lliniarol. Dim ond os yw'n fodlon y bydd gwneud hynny'n hyrwyddo'r amcan hwn y bydd y Cyngor yn caniatáu'r cais.
- 18.8 Mae atal troseddu yn un o amcanion Deddf Trwyddedu 2003 ac yn un o gyfrifoldebau'r Cyngor o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Dylai unigolyn sydd â thrwydded bersonol fod yn rhywun sydd nid yn unig wedi cymhwyso'n briodol ond yn rhywun a fydd yn cynorthwyo i atal troseddu. Gallai rhoi trwydded i unigolyn sydd â chofnod troseddol perthnasol danseilio yn hytrach na hyrwyddo'r amcan atal troseddu.
- 18.9 O 6 Ebrill 2017 ymlaen, mae Deddf Plismona a Throseddu 2017 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau trwyddedu ddirymu neu atal trwyddedau personol. Pŵer disgrisiynol

yw hwn, a gellir ei ddefnyddio pan fydd awdurdod trwyddedu'n dod i wybod bod deiliad y drwydded wedi'i gollfarnu am drosedd berthnasol neu drosedd dramor neu ei bod wedi bod yn ofynnol iddo dalu cosb fewnfudo ar 6 Ebrill 2017 neu ar ôl hynny. Rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud gan y Pwyllgor Trwyddedu neu'r is-bwyllgor a gallant ddirymu'r drwydded neu ei hatal am gyfnod o hyd at 6 mis.

19. Trwydded safle

- 19.1 Mae trwydded safle yn cael ei rhoi mewn perthynas ag unrhyw safle, ac eithrio clwb aelodau preifat neu safle tebyg, a awdurdodwyd ar gyfer un neu fwy o weithgareddau trwyddadwy, megis cyflenwi alcohol, lluniaeth gyda'r hwyr neu adloniant rheoledig.
- 19.2 Mae rhai eithriadau ar gyfer y gofyniad i gael trwydded, ac maent yn cynnwys arddangos ffilmiau at ddibenion addysgol neu hyrwyddol, ffilmiau a gaiff eu dangos fel rhan o arddangosfa, cerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo a cherddoriaeth wedi'i recordio i gynulleidfaoedd o lai na 500 o bobl rhwng 8.00am ac 11.00pm. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod trwyddedu i gael canllawiau pellach ar eithriadau eraill.
- 19.3 Pan gyflenwir alcohol, rhaid enwebu Goruchwylydd Penodedig y Safle, y mae'n rhaid iddo fod yn ddeiliad trwydded bersonol, i awdurdodi gwerthu alcohol ar y safle.
- 19.4 Rhoddir trwyddedau safle i unigolion dros 18 oed sy'n cynnal neu'n bwriadu cynnal busnes sy'n golygu defnyddio'r safle ar gyfer gweithgareddau trwyddadwy. Yn ogystal, gall elusennau, cyrff gwasanaeth iechyd, sefydliadau addysgol ac unigolion â disgrifiadau rhagnodedig eraill wneud cais am drwydded safle.
- 19.5 Gellir rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amodau, ac mae'n rhaid cydymffurfio â nhw bob amser tra bod y safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddadwy yn ystod yr amseroedd a nodir yn y drwydded. Gall methu â chydymffurfio â thelerau ac amodau trwydded, neu gyflawni gweithgareddau trwyddadwy heb drwydded safle, arwain at ddirwy ddiderfyn, neu garchar am hyd at 6 mis, neu'r ddau.
- 19.6 Caiff ffioedd am drwyddedau eu seilio ar werth ardrethol safle, ac er bod trwyddedau fel arfer yn cael eu rhoi am gyfnod amhenodol, mae ffi flynyddol yn daladwy.
- 19.7 Mae'n ddisgwyliad y bydd deiliad y drwydded safle a goruchwylydd penodedig y safle yn ymwybodol o'r mathau o weithgareddau trwyddadwy a ganiateir, yr oriau a

ganiateir ac amodau'r drwydded. Gallai methu â dangos hyn neu beidio â thalu sylw i hyn arwain Awdurdod Cyfrifol i fod â diffyg hyder yn y rheolwyr.

20. Tystysgrif safle clwb

- 20.1 Gall clwb cymwys, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, cymdeithas cyfeillion a sefydliad lles glowyr sy'n bodloni'r meini prawf a bennir yn rhan 4 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ddarparu gweithgareddau trwyddadwy i'w aelodau a gwesteion aelodau drwy awdurdodiad gan dystysgrif safle clwb.
- 20.2 Dim ond er budd aelodau a'u gwesteion mae Tystysgrif Safle Clwb yn awdurdodi defnyddio'r safle ac ni ellir ei ddefnyddio i ddarparu gweithgareddau trwyddadwy i bobl nad ydynt yn aelodau. Os yw'r safle i gael ei ddefnyddio i ddarparu gweithgareddau trwyddadwy ar gyfer pobl nad ydynt yn aelodau, bydd angen awdurdodiad ychwanegol. Gall hyn fod ar ffurf trwydded safle neu hysbysiad digwyddiad dros dro.
- 20.3 Mae safle sy'n gweithredu o dan awdurdodiad Tystysgrif Safle Clwb yn mwynhau breintiau arbennig. Os yw safle clwb yn gweithredu o dan awdurdodiad trwydded safle neu hysbysiad digwyddiad dros dro, nid yw'r breintiau'n gymwys. Mae'r breintiau'n cynnwys; hawliau mynediad cyfyngedig, nid oes angen cael unigolyn cymwys i awdurdodi gwerthu alcohol. Ystyriaethau eraill fyddai rheolau trethiant gwahanol, a dylid ceisio cyngor gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
- 20.4 Mae'n ddisgwyliad y bydd deiliad y Dystysgrif Safle Clwb yn ymwybodol o'r mathau o weithgareddau trwyddadwy a ganiateir, yr oriau a ganiateir ac amodau'r drwydded. Gallai methu â dangos hyn neu beidio â thalu sylw i hyn arwain Awdurdod Cyfrifol i fod â diffyg hyder yn y rheolwyr.

21. Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro

- 21.1 Gellir defnyddio Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro i ganiatáu i weithgareddau trwyddadwy gael eu cynnal ar sail untro neu'n achlysurol. Dyma'r math mwyaf priodol o awdurdodiad ar gyfer digwyddiadau untro, ar raddfa fach, fel digwyddiadau codi arian yn y gymuned, mewn ysgolion ac i elusennau, lle bwriedir:
- gwerthu neu gyflenwi alcohol;
 - darparu adloniant rheoledig; neu
 - werthu bwyd poeth/diod rhwng 11pm a 5am.
- 21.2 Oni bai ei fod yn cael ei anfon yn electronig, rhaid anfon Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro at yr awdurdod trwyddedu perthnasol, yr heddlu a'r awdurdod lleol sy'n

arfer swyddogaethau iechyd yr amgylchedd o leiaf ddeg diwrnod gwaith cyn y digwyddiad. Gall defnyddiwr safle hefyd roi nifer cyfyngedig o 'Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro Hwyr' i'r awdurdod trwyddedu lai na 10 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad, ond bydd rhai cyfyngiadau'n gymwys.

- 21.3 Gall yr Heddlu neu'r awdurdod sy'n arfer swyddogaethau iechyd yr amgylchedd ymyrryd i gyfyngu ar y digwyddiad neu i atal y digwyddiad rhag cael ei gynnal. Gallant gytuno ar addasiad i'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn uniongyrchol gyda defnyddiwr yr Hysbysiad. Wrth roi Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, dylai defnyddiwr y safle ystyried y nod o hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.
- 21.4 Mae dau fath o Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, Hysbysiad Safonol a Hysbysiad Hwyr. Mae hysbysiad safonol yn cael ei roi ddim hwyrach na deg diwrnod gwaith cyn y digwyddiad y mae'n berthnasol iddo a rhoddir hysbysiad hwyr ddim cynt na naw diwrnod gwaith a dim hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn y digwyddiad. Nid yw'r cyfnod yn cynnwys diwrnod derbyn yr hysbysiad na diwrnod cyntaf y digwyddiad. Bwriedir i Hysbysiadau Hwyr gynorthwyo defnyddwyr safle mae'n ofynnol iddynt gyflwyno hysbysiad ar fyr rybudd am resymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.
- 21.5 Mae gan yr Heddlu a'r awdurdod sy'n arfer swyddogaethau iechyd yr amgylchedd gyfnod o dri diwrnod gwaith o'r amser pan roddir yr hysbysiad iddynt i wrthwynebu hynny ar sail unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.
- 21.6 Os derbynnir hysbysiad gwrthwynebu ar gyfer Hysbysiad Safonol, rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwrandawriad i ystyried y gwrthwynebiad, oni bai bod pob parti'n cytuno nad oes angen gwrandawriad.
- 21.7 Os daw hysbysiad gwrthwynebu i law ynglŷn â Hysbysiad Hwyr, ni fydd yr hysbysiad yn ddilys ac ni chaniateir i'r digwyddiad fynd yn ei flaen gan nad oes modd cynnal gwrandawriad nac i unrhyw amodau trwydded presennol gael eu cymhwyso i'r hysbysiad.
- 21.8 Gosodir nifer o gyfyngiadau ar y defnydd o Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro gan Ddeddf Trwyddedu 2003. Cynghorir rhoddwyr hysbysiadau i gysylltu â'r awdurdod trwyddedu i gael rhagor o gyngor.
- 21.9 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n argymhell bod unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, yn enwedig pan fo hynny'n cynnwys darparu adloniant rheoledig, yn rhoi cymaint o rybudd i'r Awdurdod ag y bo modd, er mwyn sicrhau y gellir rhoi cyngor priodol ac y gellir datrys unrhyw faterion a ragwelir mewn modd trefnus ac amserol. Er y gellir cyflwyno hysbysiadau'n gyfreithlon gyda rhybudd o 10 diwrnod gwaith neu hysbysiad hwyr o fewn 5 diwrnod gwaith

cyn y digwyddiad, argymhellir cyfnod o 12 wythnos ar gyfer digwyddiadau mwy.

- 21.10 Caiff yr Awdurdod Trwyddedu hysbysu Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau'r Cyngor am unrhyw Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro sy'n ymwneud â darparu adloniant rheoledig. Mae'r Panel hwn yn dwyn ynghyd y gwahanol gyrrff gorfodi a all fod yn gyfrifol am orfodaeth ar gyfer digwyddiad, ynghyd ag unrhyw ymgeiswyr a threfnwyr eraill, ac yn caniatáu dod i gytundeb ynghylch y ffordd y bydd y digwyddiad yn cael ei drefnu ac ati. Argymhellir bod pob ymgeisydd sy'n cyflwyno Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn mynd drwy'r Panel Digwyddiadau wrth lunio'i Hysbysiad, a bydd y Panel Digwyddiadau o gymorth penodol i elusennau, grwpiau cymunedol a gwirfoddol, a threfnwyr digwyddiadau eraill na allant o reidrwydd gael mynediad at gyngor cyfreithiol na gwybodaeth dechnegol.

Argymhellir y dylid cysylltu â'r Grŵp Ymgynghorol mewn digon o bryd er mwyn caniatáu amser ar gyfer gwrthwynebiadau posib i drwydded neu ddigwyddiad dros dro ac amserlen y gwrandawriad. Yn hynny o beth, argymhellir cysylltu â'r Grŵp Ymgynghorol 24 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad ar gyfer digwyddiadau o dan 500 o bobl, a 68 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad ar gyfer digwyddiadau gyda thros 500 o bobl. Argymhellir hyn lle mae alcohol, adloniant rheoledig a/neu luniaeth gyda'r hwyr yn cael eu darparu.

- 21.11 Fel arfer, cyfyngir ar ardaloedd allanol a digwyddiadau awyr agored i rhwng 08.00 a 22.00 o'r gloch oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu dangos bod mesurau rheoli cynhwysfawr wedi'u rhoi ar waith sy'n sicrhau y caiff yr amcanion trwyddedu eu hyrwyddo, yn enwedig yr amcan niwsans cyhoeddus.

22. Gwerthu a chyflenwi alcohol

- 22.1 Yn gyffredinol, dylid caniatáu i siopau ac archfarchnadoedd werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle yn ystod yr oriau arferol y maent yn bwriadu bod ar agor at ddibenion siopa. Fodd bynnag, yn achos safleoedd unigol, sy'n hysbys am fod yn llefydd sy'n denu neu'n achosi anhrefn ac aflonyddwch, yna, yn amodol ar sylwadau gan yr heddlu ac awdurdodau cyfrifol eraill, gallai cyfyngiad ar oriau trwyddedu fod yn briodol.

- 22.2 Rhaid i safleoedd trwyddedig a awdurdodir o dan y Ddeddf ar gyfer gwerthu a/neu gyflenwi alcohol ystyried eu cyfrifoldebau o ran pwy y maent yn eu cyflenwi â diodydd alcoholig, yn benodol:

- Gwerthu i bobl o dan 18 oed
- Gwerthu i bobl sy'n prynu ar ran rhywun sydd o dan 18 oed
- Gwerthu i bobl feddw

- 22.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n mynd ati i annog y dylid rhoi'r gorau i werthu neu gyflenwi alcohol o leiaf 30 munud cyn amser cau'r safle. Mae hyn yn darparu amser gorffen yfed addas, ac yn gyfle i gwsmeriaid wasgaru'n raddol.
- 22.4 Mae'r Cyngor yn argymhell y dylai unrhyw safle trwyddedig sydd wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol gael polisi sy'n nodi sut y caiff y broses werthu neu gyflenwi ei rheoli a rhaid iddo gynnwys gofynion hyfforddi staff. Dylid cadw cofnodion o'r holl hyfforddiant a ddarperir ac unrhyw ddigwyddiad sy'n codi e.e. gwrthod gwerthu a'r rhesymau dros hynny.

23. Adloniant rheoledig

- 23.1 Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2003 yn nodi pa weithgareddau y tybir eu bod yn ddarpariaeth o adloniant rheoledig a phryd y maent yn drwyddadwy a'r gweithgareddau hynny nad ydynt, ac sydd felly wedi eu heithrio o'r gyfundrefn adloniant rheoledig. (Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i ddarllen Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ynghylch Adloniant Rheoledig).

Y disgrifiadau o weithgareddau adloniant trwyddadwy o dan Ddeddf 2003 yw:

- Perfformiad drama;
- Arddangosiad ffilm;
- Digwyddiad chwaraeon dan do;
- Adloniant bocsis neu reslo;
- Perfformiad cerddoriaeth fyw;
- Unrhyw ddigwyddiad lle caiff cerddoriaeth a recordiwyd ei chwarae;
- Perfformiad dawn; ac
- Adloniant o ddisgrifiad tebyg i berfformiad cerddoriaeth fyw, unrhyw ddigwyddiad lle caiff cerddoriaeth a recordiwyd ei chwarae neu berfformiad dawn.

I fod yn drwyddadwy, mae angen darparu un neu fwy o'r gweithgareddau hyn at ddiben (o leiaf yn rhannol) diddanu cynulleidfa; rhaid iddo gael ei gynnal ar safle sydd wedi'i ddarparu at ddibenion galluogi'r gweithgaredd hwnnw; a rhaid iddo hefyd naill ai:

- Ddigwydd ym mhresenoldeb cynulleidfa gyhoeddus, neu
- Pan fo'r gweithgaredd hwnnw'n digwydd yn breifat, fod yn destun tâl a godir er mwyn gwneud elw.

23.2 Cynulleidfa Gyhoeddus

At ddibenion adloniant rheoledig, mae'r term "cynulleidfa" yn cyfeirio at unrhyw unigolyn y darperir unrhyw weithgareddau trwyddadwy ar ei gyfer (o leiaf yn rhannol) i'w ddiddanu. Nid oes angen i'r aelod o'r gynulleidfa fod yn ddiddan, neu fod eisiau cael ei ddiddanu: yr hyn sy'n bwysig yw bod cynulleidfa yn bresennol ac mai diben y gweithgaredd trwyddadwy (o leiaf yn rhannol) yw diddanu unrhyw un sy'n bresennol. Ni fydd perfformwyr nac unrhyw unigolyn sy'n cyfrannu sgiliau technegol fel cymorth sylweddol i berfformiwr (er enghraifft, peiriannydd sain neu dechnegydd llwyfan) yn ystod unrhyw weithgareddau cysylltiedig yn cyfri fel cynulleidfa. Mae hyn yn cynnwys gosod cyfarpar cyn yr adloniant, seibiannau rhesymol (gan gynnwys egwyl) rhwng gweithgareddau a phacio cyfarpar ar ôl hynny. Yn yr un modd, ni fydd staff diogelwch a gweithwyr bar yn ffurfio rhan o'r gynulleidfa wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Gellir cynnal mwy nag un gweithgaredd adloniant (neu weithgaredd unigol, mwy nag un perfformiad neu ddigwyddiad) ar yr un pryd, ar yr amod nad yw'r gynulleidfa ar gyfer pob perfformiad neu ddigwyddiad yn fwy na'r trothwy lle byddai angen trwydded ar berfformiad neu ddigwyddiad o'r fath. Mewn rhai amgylchiadau, bydd gwahaniaeth clir rhwng perfformiadau neu ddigwyddiadau; er enghraifft, eu bod yn digwydd mewn ystafelloedd gwahanol neu ar loriau gwahanol. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i drefnwyr sicrhau nad yw cynulleidfaoedd yn tyfu nac yn mudo, fel nad yw'r gynulleidfa'n tyfu dros y terfyn perthnasol ar gyfer unrhyw berfformiad neu ddigwyddiad unigol ar unrhyw adeg. Os oes posibilrwydd y bydd cynulleidfa'n mudo, efallai y byddai'n haws ac yn fwy hyblyg sicrhau awdurdodiad priodol.

23.3 **Trosolwg o'r amgylchiadau lle nad yw gweithgareddau adloniant yn drwyddadwy**

Mae nifer o eithriadau sy'n golygu nad oes angen trwydded (neu awdurdodiad arall) o dan Ddeddf 2003. Ni all y polisi hwn roi enghreifftiau o bob digwyddiad neu weithgaredd adloniant posib nad yw'n drwyddadwy. Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau canlynol yn enghreifftiau o adloniant nad yw'n drwyddadwy:

- Gweithgareddau sy'n cynnwys cymryd rhan mewn cydaddoliad mewn cyddestun crefyddol;
- Gweithgareddau mewn mannau addoli crefyddol cyhoeddus;
- Addysg – addysgu myfyrwyr i berfformio cerddoriaeth neu i ddawnsio;
- Arddangos cynnyrch – er enghraifft, gitâr – mewn siop gerddoriaeth;
- Ymarfer drama neu berfformio cerddoriaeth ar gyfer cynulleidfa breifat lle na chodir tâl er mwyn gwneud elw;
- Dawnsio gwerin (neu debyg);
- Cerddoriaeth eilaidd – perfformio cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth

wedi'i recordio os yw'n eilbeth i weithgaredd arall;

- Perfformiad digymell o gerddoriaeth, canu neu ddawnsio;
- Ffeiriau gardd – neu debyg, os nad ydynt yn cael eu hyrwyddo neu eu cynnal at ddibenion elw preifat;
- Ffilmiau ar gyfer hysbysebu, rhannu gwybodaeth, addysg neu mewn amgueddfeydd neu orielau celf;
- Darllediadau teledu neu radio – cyn belled â bod y rhaglen yn fyw ac yn digwydd ar y pryd;
- Cerbydau sy'n symud – ar adeg pan nad yw'r cerbyd wedi'i barcio'n barhaol neu dros dro;
- Gemau sy'n cael eu chwarae mewn tafarndai, clybiau ieuenctid ac ati. (e.e. pŵl, dartiau a thenis bwrdd);
- Perfformiwr comedi; a
- Darparu cyfleusterau adloniant (e.e. lloriau dawns)

23.4

Newidiadau dadreoleiddio lle nad oes angen trwydded

O ganlyniad i newidiadau dadreoleiddio sydd wedi diwygio Deddf 2003, nid oes angen trwydded ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- **Dramâu:** nid oes angen trwydded ar gyfer perfformiadau rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500 o bobl.
- **Dawns:** nid oes angen trwydded ar gyfer perfformiadau rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500 o bobl.
- **Ffilmiau:** nid oes angen trwydded ar gyfer arddangos ffilm 'nid er elw' a gynhelir mewn safleoedd cymunedol rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, ar yr amod nad yw'r gynulleidfa yn fwy na 500 o bobl a bod y trefnydd (a) yn cael y cydsyniad i arddangos y ffilm gan unigolyn sy'n gyfrifol am y safle, a (b) yn sicrhau bod y ffilm yn addas i'w harddangos yn ôl y dosbarthiad oedran.
- **Digwyddiadau chwaraeon dan do:** nid oes angen trwydded ar gyfer digwyddiad rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 1000 o bobl.
- **Adloniant bocsio neu reslo:** nid oes angen trwydded ar gyfer cystadleuaeth neu arddangosfa reslo mewn arddull Greco-Rufeinig na reslo rhydd, rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 1000 o bobl.
- **Cerddoriaeth fyw sydd heb ei chwyddo:** Nid oes angen trwydded ar gyfer perfformiad o gerddoriaeth fyw sydd heb ei chwyddo rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, ar unrhyw safle.
- **Cerddoriaeth fyw sydd wedi'i chwyddo:** Nid oes angen trwydded ar gyfer perfformiad o gerddoriaeth fyw sydd wedi'i chwyddo rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod

- Ar safle a awdurdodwyd i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500 o bobl.
- Mewn gweithle sydd heb drwydded, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500 o bobl.
- Mewn neuadd eglwys, neuadd bentref, neuadd gymunedol, neu safle cymunedol tebyg arall, nad yw wedi ei drwyddedu gan drwydded safle i werthu alcohol, ar yr amod (a) nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500 o bobl, a (b) bod y trefnydd yn cael cydsyniad ar gyfer y perfformiad ar y safle perthnasol gan (i) yr awdurdod lleol o dan sylw, neu (ii) yr ysgol, neu (iii) darparwr gofal iechyd yr ysbyty.
- **Cerddoriaeth wedi'i recordio:** Nid oes angen trwydded ar gyfer chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod
 - Ar safle a awdurdodwyd i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, os nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500 o bobl.
 - Mewn neuadd eglwys, neuadd bentref, neuadd gymunedol, neu safle cymunedol tebyg arall, nad yw wedi ei drwyddedu gan drwydded safle i werthu alcohol, ar yr amod (a) nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500 o bobl, a (b) bod y trefnydd yn cael cydsyniad ar gyfer y perfformiad gan unigolyn sy'n gyfrifol am y safle.
 - Ar safle dibreswyl (i) awdurdod lleol, neu (ii) ysgol, neu (iii) ysbyty, ar yr amod (a) nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500 o bobl, a (b) bod y trefnydd yn cael cydsyniad ar gyfer y perfformiad ar y safle perthnasol gan: (i) yr awdurdod lleol o dan sylw, neu (ii) perchennog yr ysgol neu (iii) darparwr gofal iechyd yr ysbyty.
- **Eithriadau Traws-weithgaredd:** Nid oes angen trwydded rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, heb gyfyngiad ar faint y gynulleidfa ar gyfer:
 - Unrhyw adloniant sy'n digwydd ar safle'r awdurdod lleol lle darperir yr adloniant gan yr awdurdod lleol neu ar ei ran;
 - Unrhyw adloniant sy'n digwydd ar safle ysbyty'r darparwr gofal iechyd pan fo'r adloniant yn cael ei ddarparu gan y darparwr gofal iechyd neu ar ei ran.
 - Unrhyw adloniant sy'n digwydd ar safle'r ysgol lle darperir yr adloniant gan yr ysgol neu ar ei ran; ac
 - Unrhyw adloniant (ac eithrio ffilmiau ac adloniant bocsio neu reslo) sy'n digwydd mewn syrcas deithiol, ar yr amod (a) ei fod yn digwydd mewn strwythur symudol sy'n lletya'r gynulleidfa, a (b) nad yw'r syrcas deithiol wedi'i lleoli ar yr un safle am fwy na 28 diwrnod yn olynol.

Os nad yw'r trefnwyr yn gwybod beth fydd maint y gynulleidfa neu os oes posibilrwydd y bydd cynulleidfa'n mudo, efallai y byddai'n haws ac yn fwy hyblyg sicrhau awdurdodiad priodol.

Gallai enghreifftiau o lle byddai'n dal i fod yn angenrheidiol cael Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro gynnwys y canlynol: os mai'r gweithgaredd yw chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio neu arddangos ffilm sy'n gofyn am awdurdodiad; neu os nad yw'r adloniant wedi'i awdurdodi gan drwydded neu dystysgrif a'i hamodau sy'n bodoli eisoes.

Wrth gwrs, rhaid i unrhyw un sy'n ymwneud â threfnu neu ddarparu gweithgareddau adloniant – pa un a yw gweithgaredd o'r fath yn drwyddadwy o dan Ddeddf 2003 ai peidio – gydymffurfio ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol y gellir eu gosod gan ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i'r digwyddiad (e.e. mewn meysydd fel trosedd ac anhrefn, tân, iechyd a diogelwch, sŵn, niwsans a chynllunio). Dylai unrhyw unigolyn o'r fath gymryd camau i fod yn ymwybodol o arferion gorau perthnasol, ac efallai y bydd awdurdodau cyfrifol yn ffynhonnell ddefnyddiol o gymorth a chynghor arbenigol.

23.5 **Amgylchiadau lle nad yw gweithgareddau adloniant bellach yn drwyddadwy**

Safleoedd awdurdod lleol, ysbyty neu ysgol: eithrio gweithgareddau traws adloniant

Nid oes angen trwydded ar gyfer unrhyw adloniant a ddarperir ar ran, neu gan awdurdod lleol, darparwr gofal iechyd, neu berchennog ysgol i'r graddau ei fod yn digwydd ar safle diffiniedig, rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, ar yr amod:

- Ar gyfer adloniant a ddarperir gan awdurdod lleol neu ar ei ran, bod hynny'n digwydd ar safle lle mae gan yr awdurdod hwnnw fuddiant eiddo perthnasol, neu lle mae mewn meddiant cyfreithlon o'r eiddo.
- Ar gyfer adloniant a ddarperir gan ddarparwr gofal iechyd neu ar ei ran, bod hynny'n digwydd mewn unrhyw safle sy'n rhan o ysbyty lle mae gan y darparwr fuddiant eiddo perthnasol, neu lle mae mewn meddiant cyfreithlon ohono; ac
- Ar gyfer adloniant a ddarperir gan berchennog ysgol neu ar ei ran, bod hynny'n digwydd ar safle'r ysgol.

Ni all y polisi roi enghreifftiau o bob posibilrwydd lle na chaiff adloniant ei drwyddedu o dan yr eithriad hwn drwy gael ei ddarparu "gan neu ar ran". Bydd yn dibynnu ar ffeithiau pob achos unigol.

Fodd bynnag, mae'r canlynol yn enghreifftiau o weithgareddau nad ystyrir eu bod fel arfer yn drwyddadwy o dan yr eithriad hwn:

- Unrhyw weithgaredd adloniant a gynhelir gan awdurdod lleol ar eu safle eu hunain lle mae cysylltiad arwyddocaol rhwng yr awdurdod lleol a darparwr yr adloniant (e.e. pennaeth ac asiant);

- Unrhyw weithgaredd adloniant a drefnir ar ran awdurdod lleol ar safle'r awdurdod lleol hwnnw gan ymddiriedolaeth ddiwylliannol sy'n cyflawni pŵer disgresiwn awdurdod lleol i drefnu darpariaeth adloniant a chymorth ar gyfer y celfyddydau, gan gynnwys gwyliau a dathliadau.
- Unrhyw weithgaredd adloniant a drefnir gan ddarparwr gofal iechyd ar safle ei ysbyty ei hun mewn partneriaeth ag elusen ysbyty.
- Unrhyw ddigwyddiad adloniant ar safle'r ysgol a drefnir gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon er budd yr ysgol.

Mater i'r awdurdod lleol, y darparwr gofal iechyd neu berchennog yr ysgol yw penderfynu a all (neu a yw'n dymuno) ddarparu gweithgaredd adloniant o dan yr eithriad hwn, ac ar ba sail, gan gynnwys ystyried materion sy'n ymwneud â chodi arian, gwneud elw, llywodraethu neu ddefnyddio arian cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw achos syml o drydydd parti'n llogi safle yn gyfystyr â darparu digwyddiad adloniant "ar ran" awdurdod lleol, darparwr gofal iechyd, neu berchennog ysgol, ac nid yw adloniant masnachol y mae'r awdurdod lleol yn ei hwyluso drwy ddarparu man cyhoeddus yn unig yn gyfystyr â darparu adloniant o'r fath ychwaith.

Mae'r holl dermau a ddefnyddir yn yr eithriad hwn, megis "awdurdod lleol", "gofal iechyd", "darparwr gofal iechyd", "ysbyty", "ysgol", "safle ysgol", "perchennog ysgol", "safle domestig" a "buddiant eiddo perthnasol", wedi'u diffinio yng Ngorchymyn 2014.

Yr awdurdod lleol, yr ysbyty a safle'r ysgol: adloniant cerddorol gan drydydd parti

Nid oes angen trwydded ar gyfer perfformio cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio ar safleoedd awdurdodau lleol, ysbytai neu ysgolion, nad ydynt yn safleoedd domestig, rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, ar yr amod;

- Bod y gerddoriaeth yn cael ei pherfformio o flaen cynulleidfa o ddim mwy na 500 o bobl; a
- Bod unigolyn sy'n ymwneud â threfnu neu reoli'r adloniant cerddorol wedi cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr awdurdod lleol, y darparwr gofal iechyd neu berchennog yr ysgol (fel y bo'n briodol) i'r adloniant hwnnw ddigwydd. Y "darparwyr dibynadwy" hyn sy'n cael penderfynu a ydynt yn dymuno sicrhau bod eu safleoedd ar gael ai peidio ar gyfer adloniant cerddorol gan drydydd parti ac ar ba delerau y maent yn tybio bod hynny'n briodol.

Safleoedd cymunedol: adloniant cerddorol

Nid oes angen trwydded ar gyfer perfformio cerddoriaeth fyw na chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio ar safleoedd cymunedol, rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, ar yr amod;

- Nad yw'r safle cymunedol wedi ei awdurdodi, gan drwydded safle neu dystysgrif safle clwb, i'w ddefnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle;
- Bod yr adloniant cerddorol yn digwydd yng ngŵydd cynulleidfa o ddim mwy na 500 o bobl; a
- Bod unigolyn sy'n ymwneud â threfnu neu reoli'r adloniant cerddorol wedi cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan bwyllgor rheoli'r safle, neu os nad oes pwyllgor rheoli'n bodoli, unigolyn sydd â chyfrifoldeb dros reoli'r safle o ran cynnal masnach, busnes neu ymgymeriad arall ar y safle, neu yn absenoldeb hynny, unigolyn sydd â buddiant eiddo perthnasol yn y safle.

Safleoedd cymunedol: arddangos ffilm

Nid oes angen trwydded ar gyfer arddangos ffilm ar safleoedd cymunedol, rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, ar yr amod:

- Nad yw'r adloniant ffilm yn cael ei arddangos gyda'r nod o wneud elw;
- Bod yr adloniant ffilm yn digwydd yng ngŵydd cynulleidfa o ddim mwy na 500 o bobl; a
- Bod derbyn plant i'r digwyddiad yn amodol ar y cyfyngiadau sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r argymhelliad a gyhoeddir gan BBFC neu'r awdurdod trwyddedu perthnasol; a
- Bod unigolyn sy'n ymwneud â threfnu neu reoli'r arddangosiad ffilm wedi cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan bwyllgor rheoli'r safle, neu os nad oes pwyllgor rheoli'n bodoli, unigolyn sydd â chyfrifoldeb dros reoli'r safle o ran cynnal masnach, busnes neu ymgymeriad arall ar y safle, neu yn absenoldeb hynny, unigolyn sydd â buddiant eiddo perthnasol yn y safle.

O dan yr eithriad hwn, un amod yw nad yw'r adloniant ffilm yn cael ei arddangos gyda'r nod o wneud elw. Nid yw codi tâl mynediad yn gwneud yr adloniant ffilm yn drwyddadwy ynddo'i hun; dim ond os yw'r trefnydd yn bwriadu gwneud elw (sy'n cynnwys codi arian i elusen). Mae codi tâl neu gyfraniad yn unswydd er mwyn talu costau sgrinio'r ffilm yn gyson â'r ffaith nad yw'n 'cael ei arddangos gyda'r nod o wneud elw'. Mae'r amod ynghylch peidio â gwneud elw'n berthnasol i weithgaredd arddangos y ffilm o dan yr eithriad hwn yn unig. Gellir codi tâl gyda'r nod o wneud elw yn gyfreithlon am unrhyw weithgaredd neu ddigwyddiad arall sy'n wahanol i

dalw tâl mynediad i'r ffilm, megis darparu lluniaeth, sgysiau am y ffilm neu ddigwyddiad cymdeithasol.

Mae'r eithriad ffilm cymunedol hwn hefyd yn amodol ar fod yr unigolion cyfrifol yn rhoi trefniadau gweithredu ar waith sy'n sicrhau bod sgôr oedran y ffilm yn cael ei pharchu drwy gyfrwng polisi derbyn addas ar gyfer plant. Mater i'r sefydliad neu'r grŵp cymdeithasol sy'n arddangos y ffilm yw sut mae hyn yn cael ei gyflawni. Er enghraifft, gallent weithredu cynllun tanysgrifio aelodaeth sy'n talu am fynediad i bob arddangosiad yn ystod y tymor ac sydd wedi'i gyfyngu i oedolion. Gallai fod yn glwb ffilm i blant gyda pholisi o ddangos ffilmiau sy'n addas i bawb ar sail gradd 'U' gan BBFC yn unig. Fel arall, gallai'r trefnwyr werthu tocynnau i'r cyhoedd a sicrhau mai dim ond ar sail sgôr oedran y ffilm y caniateir i blant ddod – h.y. bod polisi derbyn ar y drws sy'n gofyn am brawf oedran.

Syracasau Teithiol

Os bydd mathau o adloniant yn digwydd mewn perfformiad gan syrcau deithiol, ni fyddant yn drwyddadwy ar yr amod bod amodau cymhwyso penodol yn cael eu bodloni. Yr amodau cymhwyso yw:

- Nad yw'r adloniant yn arddangosiad o ffilm nac yn adloniant bocsiu neu reslo;
- Bod yr adloniant yn digwydd rhwng 08.00 a 23.00 ar yr un diwrnod;
- Bod yr adloniant yn digwydd yn gyfan gwbl o fewn strwythur symudol a bod y gynulleidfa sy'n bresennol wedi'u lletya'n llwyr y tu mewn i'r strwythur symudol hwnnw; ac
- Nad yw'r syrcau deithiol wedi'i lleoli ar yr un safle am fwy na 28 diwrnod yn olynol.

Cerddoriaeth Fyw

Mae cerddoriaeth fyw yn drwyddadwy -

- Lle mae perfformiad cerddoriaeth fyw – boed hynny'n gerddoriaeth sydd wedi'i chwyddo neu ddim – yn digwydd cyn 08.00 neu ar ôl 23.00 ar unrhyw ddiwrnod;
- Lle nad yw perfformiad cerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo yn digwydd ar safleoedd trwyddedig perthnasol, nac mewn gweithle nad yw'n drwyddedig ac eithrio ar gyfer darparu lluniaeth gyda'r hwyr;
- Pan fydd perfformiad cerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo'n digwydd ar adeg pan nad yw'r safle trwyddedig perthnasol ar agor at ddibenion gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle;
- Pan fydd perfformiad cerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo'n digwydd mewn gweithle neu safle trwyddedig perthnasol lle nad yw'r gynulleidfa'n fwy na

500 o bobl; a

- Pan fo awdurdod trwyddedu'n diddymu'n fwriadol effaith y dadreoleiddio y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf 2003 wrth osod amod ar drwydded safle neu dystysgrif safle clwb o ganlyniad i adolygiad o drwydded.

Yn unrhyw un o'r amgylchiadau uchod, oni bai bod perfformiad cerddoriaeth fyw yn cael ei awdurdodi'n briodol gan drwydded safle, dystysgrif safle clwb neu Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, gallai caniatáu iddo fynd yn ei flaen arwain at gamau gorfodi a, lle bo'n berthnasol, adolygiad o'r drwydded neu'r dystysgrif alcohol.

Bellach, nid oes angen trwydded o dan Ddeddf 2003 ar gyfer unrhyw berfformiad cerddoriaeth fyw cyhoeddus sydd heb ei chwyddo sy'n digwydd rhwng 08.00 a 23.00 yn unrhyw leoliad. Eithriad i hyn yw pan fo amod penodol sy'n ymwneud â cherddoriaeth fyw yn cael ei gynnwys yn dilyn adolygiad o drwydded y safle neu dystysgrif safle'r clwb o ran safleoedd trwyddedig perthnasol.

Termau allweddol a ddefnyddir o ran cerddoriaeth fyw

O dan y darpariaethau cerddoriaeth fyw, mae "cerddoriaeth" yn cynnwys cerddoriaeth lleisiol neu offerynnol neu unrhyw gyfuniad o'r ddau. Mae "cerddoriaeth fyw" yn berfformiad o gerddoriaeth fyw yng ngŵydd cynulleidfya y bwriedir iddi eu diddanu. Er y gall perfformiad o gerddoriaeth fyw gynnwys chwarae peth cerddoriaeth sydd wedi'i recordio, mae cerddoriaeth 'fyw' yn mynnu nad chwarae cerddoriaeth a recordiwyd yw holl hanfod y perfformiad heb fod unrhyw gyfraniad creadigol ychwanegol (sylweddol a pharhaus) yn cael ei wneud. Felly, er enghraifft, byddai peiriant drymiau neu drac cefndir sy'n cael ei ddefnyddio yn gyfeiliant i lais neu fand yn rhan o berfformiad cerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo. Ni fyddai perfformiad DJ sydd ond yn chwarae traciau yn cael ei gyfri fel cerddoriaeth fyw, ond gallai fod petai'n perfformio set drwy gymysgu cerddoriaeth wedi'i recordio mewn perfformiad byw i greu synau newydd. Mae'n anochel y bydd gofyn rhywfaint o ddehongli ynghylch a yw perfformiad yn gerddoriaeth fyw (neu'n gerddoriaeth wedi'i recordio), a dylai trefnwyr digwyddiadau holi eu hawdurdod trwyddedu os yw'r ystyriaeth hon yn berthnasol i'r ffaith bod y gweithgaredd wedi'i awdurdodi gan drwydded neu dystysgrif. Os bydd anghydfod ynghylch a yw perfformiad yn gerddoriaeth fyw ai peidio, yr awdurdod trwyddedu i ddechrau, ac yn y pen draw y llysoedd, fydd yn gyfrifol am benderfynu ar sail amgylchiadau unigol unrhyw achos.

Mae "gweithle" wedi'i ddiffinio yn rheoliad 2(1) o Reoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 ac mae'n cynnwys unrhyw le a gaiff ei ddarparu i unrhyw unigolyn fel man gwaith. Mae'n derm eang iawn sy'n gallu cynnwys mannau awyr

agored, yn ogystal â mynedfeydd ac allanfeydd.

Ystyr "safle trwyddedig perthnasol" at ddibenion y bennod hon yw safle sydd wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle drwy drwydded safle neu dystysgrif safle clwb. Ni all safleoedd elwa o'r dadreoleiddio a gyflwynwyd gan Ddeddf 2012 yn rhinwedd bod ag awdurdodiad ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol o dan Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro.

Cerddoriaeth wedi'i Recordio

Nid oes angen trwydded ar gyfer cerddoriaeth wedi'i recordio lle mae'n digwydd ar safle sydd wedi'i awdurdodi gan drwydded safle neu dystysgrif safle clwb i'w ddefnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Fodd bynnag, mae cerddoriaeth wedi'i recordio yn parhau'n drwyddadwy

- Pan fydd chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio yn digwydd cyn 08.00 neu ar ôl 23.00 ar unrhyw ddiwrnod;
- Pan fydd chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio'n digwydd ar adeg pan nad yw'r safle trwyddedig perthnasol ar agor at ddibenion gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle;
- Pan fydd chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio'n digwydd ar safle trwyddedig perthnasol, pan nad yw'r gynulleidfa'n fwy na 500 o bobl; a
- Pan fo awdurdod trwyddedu'n dileu'n fwriadol effaith y dadreoleiddio y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf 2003 (fel y'i diwygiwyd).

Dramâu a Dawns

Nid oes angen trwydded ar gyfer perfformio drama neu ddawns i'r graddau bod amodau cymhwyso penodol wedi'u bodloni. Fodd bynnag, mae perfformiad drama neu ddawns yn parhau'n drwyddadwy:

- Pan fo'r digwyddiad yn digwydd cyn 08.00 neu ar ôl 23.00 ar unrhyw ddiwrnod; neu
- Pan fydd y perfformiad yn digwydd o flaen cynulleidfa o fwy na 500 o bobl.

Chwaraeon Dan Do

Nid oes angen trwydded ar gyfer digwyddiad chwaraeon dan do i'r graddau bod amodau cymhwyso penodol wedi'u bodloni. Fodd bynnag, mae digwyddiad chwaraeon dan do yn parhau'n drwyddadwy:

- Pan fo'r digwyddiad yn digwydd cyn 08.00 neu ar ôl 23.00 ar unrhyw ddiwrnod; neu
- Pan fo'r digwyddiad yn digwydd ym mhresenoldeb mwy na 1000 o wylwyr.

Cerddoriaeth Fyw neu Gerddoriaeth wedi'i Recordio

Bydd unrhyw amodau trwydded presennol (neu amodau a ychwanegir wrth benderfynu ar gais am drwydded safle neu dystysgrif safle clwb) sy'n ymwneud â cherddoriaeth fyw neu gerddoriaeth sydd wedi'i recordio yn dal i fod mewn grym, ond byddant yn cael eu hatal dros dro rhwng 08.00 a 23.00 ar yr un diwrnod pan fodlonir yr amodau canlynol:

- Ar adeg yr adloniant cerddorol, bod y safle ar agor at ddibenion gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle;
- Os yw'r gerddoriaeth wedi'i chwyddo, bod yr adloniant yn digwydd yng ngŵydd cynulleidfa o ddim mwy na 500 o bobl; a
- Bod y gerddoriaeth yn digwydd rhwng 08.00 a 23.00 ar yr un diwrnod.

Bydd p'un a yw amod trwydded yn ymwneud â cherddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio yn fater o ffaith ym mhob achos unigol. Mewn rhai achosion, bydd yn amlwg bod amod yn ymwneud â cherddoriaeth a chaiff ei atal, er enghraifft "yn ystod perfformiadau o gerddoriaeth fyw rhaid i bob drws a ffenestr aros ar gau". Mewn achosion eraill, efallai na fydd mor amlwg: er enghraifft, byddai amod yn datgan "yn ystod perfformiadau o adloniant rheoledig, rhaid i bob drws a ffenestr aros ar gau" yn cael ei atal i'r graddau y mae'n ymwneud â cherddoriaeth rhwng 08.00 a 23.00 ar yr un diwrnod, i gynulleidfa o hyd at 500 o bobl, ond byddai'r amod yn berthnasol pe bai adloniant rheoledig yn digwydd ar ôl 23.00.

Bydd amodau trwydded mwy cyffredinol (e.e. rhai sy'n ymwneud â rheolaeth gyffredinol niwsans sŵn posib) nad ydynt yn ymwneud yn benodol â darparu adloniant (e.e. arwyddion yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel) yn parhau i gael effaith.

Bydd yr amodau hyn, i bob pwrpas, yn cael eu hatal rhwng 08.00 a 23.00 os bydd perfformiad cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio yn digwydd o flaen cynulleidfa o 500 o bobl neu lai, ond byddant yn aros ar wyneb y drwydded ar gyfer pan allai'r gweithgareddau hyn ddigwydd o dan amgylchiadau eraill.

Lle nad yw perfformiad cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio ar safle trwyddedig perthnasol yn drwyddadwy, mae'n dal i fod yn bosib i unrhyw un wneud cais am adolygiad o drwydded neu dystysgrif, os oes rhesymau priodol dros wneud hynny.

Gerddi Cwrw

Mae gerddi cwrw yn aml yn cael eu cynnwys fel rhan o drwydded safle neu dystysgrif safle clwb. Mae cerddoriaeth fyw sydd wedi'i chwyddo sy'n digwydd mewn gardd gwrw wedi'i heithrio o'r gofynion trwyddedu, ar yr amod bod yr ardd gwrw wedi'i chynnwys yn y drwydded neu'r dystysgrif sy'n berthnasol i'r safle trwyddedig perthnasol, a bod y perfformiad yn digwydd rhwng 08.00 a 23.00 ar yr un diwrnod o flaen cynulleidfa o 500 o bobl neu lai.

Os nad yw gardd gwrw'n rhan o'r safle trwyddedig perthnasol ac felly heb ei chynnwys mewn cynlluniau sydd ynghlwm wrth drwydded safle neu dystysgrif safle clwb, mae'n debygol iawn, serch hynny, y bydd yn weithle.

Mae paragraff 12B o Atodlen 1 i Ddeddf 2003 yn nodi nad yw perfformiad o gerddoriaeth fyw mewn gweithle nad oes ganddo drwydded (ac eithrio i ddarparu lluniaeth gyda'r hwyr) yn adloniant rheoledig os yw'n digwydd rhwng 08.00 a 23.00 ar yr un diwrnod o flaen cynulleidfa o ddim mwy na 500 o bobl. Noder nad yw'r eithriad ym mharagraff 12B yn berthnasol i chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio.

Fodd bynnag, os gellir cyfiawnhau hynny, caiff awdurdod trwyddedu osod amod trwydded sy'n ymwneud â pherfformio cerddoriaeth fyw mewn gardd gwrw heb ei thrwyddedu sy'n cael ei gwasanaethu gan unrhyw drwydded safle gysylltiedig neu dystysgrif safle clwb. Cyn belled â bod amod o'r fath yn cael ei osod yn gyfreithlon, daw i rym yn unol â'i delerau.

Dramâu, dawns a chwaraeon dan do

Os bodlonir amodau cymhwyso, ni fydd unrhyw amod trwydded gyfredol sy'n ymwneud â pherfformio drama neu ddawns, neu ddigwyddiad chwaraeon dan do lle nad oes angen trwydded ar ei gyfer bellach (ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn y paragraff nesaf), yn cael unrhyw effaith.

Fodd bynnag, lle bo'r gweithgareddau hyn nad ydynt yn drwyddadwy yn digwydd ar yr un pryd â gweithgareddau eraill y mae angen trwydded ar eu cyfer (e.e. gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle), gall amodau sydd wedi'u cynnwys mewn trwydded fod yn berthnasol, serch hynny, i'r gweithgareddau nad ydynt yn drwyddadwy yn yr amgylchiadau a nodir uchod.

Mae dawns sy'n rhywiol ei natur yn parhau i gael ei rheoleiddio. Nid yw perfformiadau dawns sy'n "adloniant perthnasol" yn ôl yr ystyr yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982"), waeth beth fo maint y gynulleidfa nac amser y dydd, wedi'i dadreoleiddio. Diffinnir "adloniant perthnasol" yn Neddf 1982 fel perfformiad byw neu arddangosiad byw o noethni y gellir rhagdybio, gan anwybyddu enillion ariannol, y caiff ei ddarparu'n unig neu'n

bennaf er mwyn ysgogi unrhyw aelod o'r gynulleidfa'n rhywiol.

Ym mhob achos bron lle y gellid trwyddedu perfformiad dawns fel darpariaeth adloniant perthnasol (o dan Ddeddf 1982) ac fel adloniant rheoledig (o dan Ddeddf 2003), mae Deddf 1982 yn datgymhwyso'r gyfundrefn trwyddedu adloniant yn Neddf 2003 gan ei disodli â threfn lymach ar gyfer rheoli sefydliadau rhyw. Fodd bynnag, bydd yr angen am awdurdodiad o dan Ddeddf 2003 yn hytrach na Deddf 1982 yn parhau:

- Pan nad yw'r safle wedi'i drwyddedu fel lleoliad adloniant rhyw o dan Ddeddf 1982, a
- Pan fo adloniant perthnasol wedi cael ei ddarparu ar y safle hwnnw ar ddim mwy nag 11 achlysur mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, ac nad oedd dim un o'r achlysuron hynny'n para mwy na 24 awr neu'n digwydd o fewn mis i unrhyw achlysur arall o'r fath.

Adloniant bocsio neu reslo ac amodau sy'n ymwneud â chwaraeon ymladd cyfunol

Ni all adloniant bocsio neu reslo dan do fod yn ddigwyddiad chwaraeon dan do hefyd, ac mae unrhyw ornest neu arddangosfa sy'n cyfuno bocsio neu reslo gydag un neu fwy o grefftau ymladd ('chwaraeon ymladd cyfunol') yn adloniant bocsio neu reslo – boed yn cael ei gynnal dan do ai peidio.

Pan fydd trwydded safle neu dystysgrif safle clwb yn honni ei fod yn awdurdodi adloniant bocsio neu reslo neu chwaraeon ymladd cyfunol fel 'digwyddiad chwaraeon dan do', mae Gorchymyn 2013 yn darparu y bydd yr awdurdodiad yn cael ei drin fel pe bai wedi awdurdodi'r gweithgareddau hynny fel adloniant bocsio neu reslo. Bydd y gweithgareddau hynny'n parhau i fod yn amodol ar unrhyw amodau perthnasol a fydd ynghlwm wrth yr awdurdodiad hwnnw.

Nid oes angen trwydded ar gystadleuaeth neu arddangosfa reslo mewn arddull Greco-Rufeinig, na reslo rhydd, rhwng dau unigolyn (waeth beth fo'u rhyw) ar yr amod y bodlonir amodau cymhwyso penodol. Yr amodau hynny yw:

- Bod y digwyddiad yn cael ei gynnal ar gyfer dim mwy na 1,000 o wylwyr;
- Bod y digwyddiad yn cael ei gynnal rhwng 08.00 a 23.00 ar yr un diwrnod; a
- Bod y digwyddiad yn digwydd yn gyfan gwbl y tu mewn i adeilad a bod yr holl wylwyr sy'n bresennol ar gyfer yr adloniant yn cael eu lletya'n gyfan gwbl y tu mewn i'r adeilad.

23.7

Amodau sy'n ymwneud â gweithgareddau eraill nad ydynt yn rhai trwyddadwy

Os yw'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, ac os oes cysylltiad â gweithgareddau trwyddadwy sy'n weddill, gellir ychwanegu at amodau neu addasu amodau sy'n ymwneud â gweithgareddau nad ydynt yn rhai trwyddadwy ar drwydded y safle hwnnw neu dystysgrif safle'r clwb yn ystod adolygiad pan fydd problemau wedi digwydd ar y safle. Mae hyn wedi bod yn nodwedd o amodau trwyddedu ers i Ddeddf 2003 ddod i rym. Enghraifft berthnasol bosib fyddai defnyddio amodau sy'n ymwneud â darllediadau sgrin fawr o rai digwyddiadau chwaraeon a allai, o'u cyfuno â'r gallu i yfed alcohol, greu perygl gwirioneddol i'r gwaith o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nid yw'n anghyffredin ychwaith i amodau trwyddedu sy'n ymwneud â gwerthu alcohol gyfyngu ar fynediad i ardaloedd awyr agored, megis gerddi cwrw heb eu trwyddedu, ar ôl amser penodol.

Yn yr un modd, er nad oes angen trwydded ar gyfer caraoce bellach fel darparu cyfleuster adloniant (ac yn gyffredinol bydd yn cael ei gyfri fel perfformiad cerddoriaeth fyw) gallai, er enghraifft, fod yn bosib ar ôl adolygiad, i gyfyngu ar ddefnydd neu lefel sain microffon sydd ar gael i gwsmeriaid ar noson 'meic agored' (sy'n cwmpasu mwy na dim ond cerddoriaeth fyw), pe bai problem wedi codi oherwydd bod cwsmeriaid yn prynu alcohol i'w yfed ar y safle yn mynd yn fwy swnllyd ac yn llai ymwybodol o achosi niwsans sŵn yn ddiweddarach yn y noson. Enghraifft arall fyddai amod sy'n cyfyngu ar fynediad i lawr dawnsio ar adegau penodol, lle'r oedd cwsmeriaid a oedd wedi bod yn yfed alcohol ar y safle ac yn dod yn agos at ei gilydd wedi arwain at anhrefn difrifol. Yn y lle cyntaf, yr awdurdod trwyddedu sydd i benderfynu a yw amod penodol yn briodol ac yn gyfreithlon ym mhob achos.

23.8 **Cerddoriaeth eilaidd**

Nid yw perfformio cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio yn adloniant rheoledig o dan Ddeddf 2003 os yw'n 'eilaidd' i weithgaredd arall "nad yw ynddo'i hun yn ddisgrifiad o adloniant sy'n dod o dan baragraff 2" o Atodlen 1 i Ddeddf 2003. Gall yr eithriad i gerddoriaeth eilaidd fod yn berthnasol i ddigwyddiad chwaraeon dan do neu berfformiad drama neu ddawns nad oes angen trwydded ar ei gyfer, gan ei fod yn digwydd rhwng 08.00 a 23.00 ac ar yr un diwrnod ac o flaen cynulleidfa nad yw'n fwy na'r terfyn perthnasol. Y rheswm am hyn yw nad yw gweithgaredd o'r fath bellach yn ddisgrifiad o adloniant o fewn ystyr paragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2003. Mae hyn yn golygu, er na all perfformiad cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio fod yn eilaidd i adloniant bocsio neu reslo, gall cerddoriaeth o'r fath fod o fewn cwmpas yr eithriad cerddoriaeth eilaidd ar gyfer digwyddiad chwaraeon dan do neu berfformiad o ddrama neu ddawns nad oes angen trwydded ar ei gyfer.

Bydd p'un a yw cerddoriaeth yn "eilaid" i weithgaredd arall ai peidio yn dibynnu ar feithiau pob achos. Wrth ystyried a yw cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio yn eilaid ai peidio, un ffactor perthnasol posib yw a fyddai ychwanegu cerddoriaeth at gefndir y gweithgareddau eraill sydd eisoes yn digwydd yn creu'r potensial i danseilio'r gwaith o hyrwyddo un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu yn Neddf 2003. Gallai ffactorau eraill gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Ai'r gerddoriaeth yw'r prif reswm, neu un o'r prif resymau, bod pobl yn dod i'r safle a bod tâl yn cael ei godi arnynt?
- A yw'r gerddoriaeth yn cael ei hysbysebu fel y prif atyniad?
- A yw'r lefel sain neu'r gerddoriaeth yn tarfu neu'n tra-arglwyddiaethu dros weithgareddau eraill, neu a ellid ei disgrifio fel cerddoriaeth 'gefndirol'?

I'r gwrthwyneb, mae ffactorau na fyddai fel arfer yn berthnasol ynddynt eu hunain yn cynnwys:

- Nifer y cerddorion, e.e. cerddorfa sy'n darparu cerddoriaeth eilaid mewn arddangosfa fawr;
- A yw cerddorion yn cael eu talu;
- A yw'r perfformiad wedi'i drefnu ymlaen llaw; ac
- A godir tâl am gael mynediad i'r safle.

Os bydd anghydfod ynghylch achos, yr awdurdod trwyddedu i ddechrau, ac yn y pen draw y llysoedd, fydd yn gyfrifol am benderfynu a yw cerddoriaeth yn "eilaid" ar sail amgylchiadau unigol unrhyw achos.

23.9 **Dileu amodau'r drwydded**

Wrth adolygu trwydded safle neu dystysgrif safle clwb, mae adran 177A(3) o Ddeddf 2003 yn caniatáu i awdurdod trwyddedu godi'r ataliad dros dro a rhoi effaith o'r newydd i amod sy'n bodoli eisoes sy'n ymwneud â cherddoriaeth. Yn yr un modd, o dan adran 177A(4), caiff awdurdod trwyddedu ychwanegu amod sy'n ymwneud â cherddoriaeth fel petai cerddoriaeth yn adloniant rheoledig, ac fel petai'r drwydded safle neu dystysgrif safle clwb yn trwyddedu'r gerddoriaeth. Yn y ddau achos, dylai'r amod gynnwys datganiad nad yw Adran 177A yn berthnasol i'r amod.

Gall awdurdod trwyddedu, unrhyw awdurdod cyfrifol neu unrhyw unigolyn arall wneud cais am adolygiad o safle perthnasol. Rhaid i geisiadau am adolygiad fod yn berthnasol o hyd i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu a bodloni nifer o ofynion pellach.

23.10 **Bysgio**

Bysgio neu berfformiad stryd yw'r arfer o berfformio mewn mannau cyhoeddus am arian. Nid yw perfformiadau yn gyfyngedig i gerddoriaeth neu ganu a gallant fod ar ffurf ystod eang o weithgareddau sy'n diddanu pobl.

Yn gyffredinol, nid yw bysgio yn drwyddadwy o dan Ddeddf 2003:

- Gan ei fod yn digwydd yn aml mewn man lle nad oes safle wedi'i ddarparu (o leiaf yn rhannol) at ddibenion darparu adloniant.
- Gan fod yr adloniant yn eilaidd i weithgaredd arall, megis siopa neu fwynhau golygfeydd, gan mai prin yw'r amgylchiadau lle byddai rhywun yn mynd allan yn benodol i wyllo bysgwyr; a
- Gan nad yw unrhyw gerddoriaeth fyw sydd heb ei chwyddo yn drwyddadwy rhwng 08.00 a 23.00.

23.11 **Ffilm eilaidd**

Nid yw arddangos ffilm o fewn ystyr paragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf 2003 yn adloniant rheoledig os yw'n 'eilaidd' i weithgaredd arall "nad yw ynddo'i hun yn ddisgrifiad o adloniant sy'n dod o dan baragraff 2" o Atodlen 1 i Ddeddf 2003.

Gall yr eithriad i ffilm eilaidd fod yn berthnasol i ddigwyddiad chwaraeon dan do neu berfformiad drama neu ddawns nad oes angen trwydded ar ei gyfer, gan ei fod yn digwydd rhwng 08.00 a 23.00 ac ar yr un diwrnod ac o flaen cynulleidfya nad yw'n fwy na'r terfyn perthnasol. Ni fyddai gweithgareddau o'r fath bellach yn ddisgrifiad o adloniant o fewn ystyr paragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2003.

Mae hyn yn golygu, er na all arddangos lluniau sy'n symud fod yn eilaidd i adloniant bocsio neu reslo, gall arddangosiad o'r fath fod o fewn cwrmpas yr eithriad ffilm eilaidd ar gyfer digwyddiad chwaraeon dan do neu berfformiad drama neu ddawns nad oes angen trwydded ar ei gyfer.

Bydd p'un a yw arddangos lluniau sy'n symud yn "eilaidd" i weithgaredd arall ai peidio yn dibynnu ar ffeithiau pob achos. Wrth ystyried a yw ffilm yn eilaidd ai peidio, un ffactor perthnasol posib yw a fyddai ychwanegu arddangosfa o luniau byw at gefndir y gweithgareddau eraill sydd eisoes yn digwydd yn creu'r potensial i danseilio'r gwaith o hyrwyddo un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu yn Neddf 2003. Byddai hyn yn golygu os yw'r BBFC neu'r awdurdod trwyddedu perthnasol wedi rhoi sgôr oedran i ffilm, fideo neu fideo cerddoriaeth, yna er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr eithriad trwyddedu "ffilm eilaidd" byddai angen cyfyngu ar oedran y plant i'r safle yn unol â'r sgôr oedran priodol. Ond un agwedd ar un

ffactor perthnasol yw hynny. Gallai ffactorau eraill i'w hystyried wrth asesu a yw ffilm yn eilaidd gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Ai'r ffilm yw'r prif reswm, neu un o'r prif resymau, bod pobl yn dod i'r safle a bod tâl yn cael ei godi arnynt?
- A yw'r ffilm yn cael ei hysbysebu fel y prif atyniad?
- A yw arddangos ffilm yn tra-arglwyddiaethu dros weithgareddau eraill, neu a ellid ei disgrifio fel delweddau 'cefnidiol'?
- A yw ymddangosiad lluniau sy'n symud fel rhan o weithgaredd adloniant arall nad oes angen trwydded ar ei gyfer (e.e. perfformiad drama neu ddawns), yn tanseilio'r gwaith o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu?

23.12 **Gweithgaredd adloniant a ddarperir fel rhan o ofal plant**

Yn gyffredinol, ni fydd gweithgaredd adloniant sy'n cael ei ddarparu fel rhan o ofal plant yn drwyddadwy. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau adloniant mewn meithrinfa neu gartref preifat. Yn ogystal, mae paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf 2003 yn cynnwys eithriad trwyddedu ar gyfer arddangos ffilm lle mai'r prif ddiben yw darparu addysg. Yn gyffredinol, bydd addysg yn cynnwys pob math o ofal plant a gofal dydd cyn ysgol. At hynny, yn gyffredinol bydd arddangos ffilm, neu chwarae cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth sydd wedi'i recordio, yn eilaidd i weithgaredd gofal plant ac felly bydd yr eithriad i gerddoriaeth a ffilm eilaidd ym mharagraff 7 o Atodlen 1 hefyd yn gymwys. Fel arfer bydd hyn yn wir am unrhyw weithgaredd adloniant a drefnir fel rhan o ofal plant cofleidiol, gan gynnwys clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol neu glybiau gwyliau sy'n gysylltiedig ag ysgol y plentyn neu sydd wedi'u lleoli yn y gymuned leol.

23.13 **Perfformiad gan Blant**

Mae deddfwriaeth perfformio gan blant yn mynnu bod yn rhaid cael trwydded gan awdurdod lleol cartref plentyn cyn y gall gymryd rhan mewn mathau penodol o berfformiadau a gweithgareddau. Mae'n bosib y bydd angen trwydded p'un a wneir taliad i'r plentyn am berfformio ai peidio. Nid yw dadreoleiddio trwyddedu adloniant yn newid y rheoliadau ynghylch pryd y gall plant gymryd rhan mewn perfformiadau. I gael rhagor o wybodaeth am y drwydded ar gyfer Perfformiad gan Blant, cysylltwch â Swyddog Lles Addysg y Cyngor.

24. **Gweinyddiad**

Mae tîm trwyddedu'r Cyngor yn gweinyddu pob agwedd ar Ddeddf Trwyddedu

2003, gan gynnwys ceisiadau, sylwadau a cheisiadau am gymorth a chynghor. Mae gwybodaeth fanwl ar gael ar wefan y Cyngor am yr holl wasanaethau y mae'n eu cynnig ar gyfer deiliaid trwydded, ymgeiswyr, achwynwyr a phob ymholiad arall. Gellir llwytho gwybodaeth a ffurflenni cais i lawr o'n gwefan. Gellir cysylltu â'r timau trwyddedu drwy'r dulliau canlynol:-

Adran Drwyddedu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Tŷ Penallta

Parc Tredomen

Ystrad Mynach

Hengoed

CF82 7PG

E-bost: trwyddedu@caerffili.gov.uk

Ffôn: 01443 866750

Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/Business/Licences-and-permits?lang=cy-gb

25. Gweithdrefnau ymgeisio

- 25.1 Argymhellir yn gryf bod darpar ymgeiswyr yn gofyn am gynghor cyn ymgeisio. Rhoddir cynghor ar y broses ymgeisio, ond ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n llenwi'r ffurflen gais ar ran ymgeisydd ar unrhyw achlysur. Mae gwybodaeth fanwl ar gael ar wefan y Cyngor am yr holl wasanaethau y mae'n eu cynnig ar gyfer deiliaid trwydded, ymgeiswyr, achwynwyr a phob ymholiad arall. Yn ogystal, gellir defnyddio'r wefan i chwilio am geisiadau sydd yn yr arfaeth ac mae ar gael yn www.caerphilly.gov.uk/Business/Licences-and-permits?lang=cy-gb
- 25.2 Yn unol â Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009, mae cyfleusterau ymgeisio electronig ar gyfer trwyddedau safleoedd ar gael ac maent i'w gweld ar wefan GOV.UK neu www.caerphilly.gov.uk/Business/Licences-and-permits?lang=cy-gb. Mae ceisiadau electronig am gategoriau eraill o drwydded ac awdurdodiadau hefyd ar gael ar y gwefannau hyn. Bydd ceisiadau a wneir ar ffurf electronig neu drwy GOV.UK yn cael eu hanfon at yr awdurdodau cyfrifol gan yr awdurdod trwyddedu. Os yw'r ymgeisydd yn cyflwyno ei gais yn ysgrifenedig, nhw fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am ei gopïo i'r awdurdodau cyfrifol.
- 25.3 Rhaid i geisiadau am bob trwydded ac awdurdodiad sydd ar gael o dan Ddeddf 2003 gael eu gwneud ar y ffurflen berthnasol a ragnodir o dan is-reoliadau. Ni chaiff ceisiadau eu symud ymlaen nes bod y ffurflen wedi'i llenwi'n llawn a'i bod

wedi'i derbyn, ynghyd â'r ffi/ffioedd perthnasol a'r holl wybodaeth arall sy'n ofynnol, gan yr Awdurdod Trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol perthnasol.

25.4 Pan wneir ceisiadau electronig, ystyrir bod y cais wedi'i 'roi' pan fydd yr ymgeisydd wedi cyflwyno ffurflen gais gyflawn ac wedi talu'r ffi.

25.5 Yr Awdurdodau Cyfrifol yw:

Awdurdod Cyfrifol	Manylion cyswllt
Yr Awdurdod Trwyddedu	Adran Drwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG 01443 866750 trwyddedu@caerffili.gov.uk
Iechyd yr Amgylchedd (Swyddogaeth statudol ar gyfer lleihau neu atal y risg o lygredd i'r amgylchedd neu niwed i iechyd dynol.)	Arweinydd Tîm Rheoli Llygredd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tŷ Penallta Parc Tredomen Ystrad Mynach Hengoed CF82 7PG amgylchedd@caerffili.gov.uk
Awdurdod Iechyd yr Amgylchedd (Awdurdod Gorfodi yn ôl yr ystyr a roddir gan adran 18 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ar gyfer yr ardal y mae'r safle wedi'i leoli ynddo)	Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Bwyd ac Iechyd a Diogelwch) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tŷ Penallta Parc Tredomen Ystrad Mynach Hengoed CF82 7PG diogelwchiechydbwyd@caerffili.gov.uk
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (ar gyfer eiddo o dan orfodaeth yr HSE neu sy'n eiddo i Gyngor Caerffili'n unig)	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Adeiladau'r Llywodraeth Cam 1 Heol Tŷ Glas Llanisien Caerdydd CF14 5SH
Yr Awdurdod Pwysau a Mesurau (Swyddogaeth Safonau Masnach)	Uwch Swyddog Safonau Masnach (Adran Diogelwch Cymunedol) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG SafonauMasnach@caerffili.gov.uk

Diogelu Plant (Corff sy'n cynrychioli'r rhai sy'n gyfrifol am faterion sy'n gysylltiedig â diogelu plant rhag niwed neu sydd â diddordeb yn hynny ac yn gymwys i roi cyngor ar faterion o'r fath.)	Cydlynnydd Diogelu Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG 01443 864744
Yr Awdurdod Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio Is-adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tŷ Dyffryn Ystâd Ddiwydiannol Dyffryn Ystrad Mynach CF82 7FP E-bost: cynllunio@caerffili.gov.uk
Heddlu Gwent	Prif Swyddog yr Heddlu At sylw'r Swyddog Trwyddedu Heddlu Gwent Pencadlys Rhanbarthol 'C' Blackwood Road Pontllan-fraith Coed Duon NP12 2XA Ffôn: 01495 232253/232267 LicensingCDIV@gwent.pnn.police.uk
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, Pont-y-clun CF72 8LX. 01443 232713 safety-east@southwales-fire.gov.uk
Iechyd y Cyhoedd	Dr G Richardson, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd – Arweinydd Trwyddedu Alcohol Tîm Iechyd y Cyhoedd Aneurin Bevan Gwent Tŷ Fictoria 136-140 Heol Corporation Casnewydd NP19 0BH E-bost: publichealth.aneurinbevan@wales.nhs.uk
Y Swyddfa Gartref (Gorfodi Mewnffudo)	Tîm Trwyddedu Alcohol y Swyddfa Gartref, Lunar House, 40 Wellesley Road, Croydon CR9 2BY. alcohol@homeoffice.gsi.gov.uk

--	--

25.6

Y camau ar gyfer ystyried cais trwyddedu, amrywiad i drwydded a thystysgrif safle clwb yw:

- a) Os na wneir sylwadau ar gais, rhaid i'r Awdurdod ei gymeradwyo'n llawn. Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth www.caerffili.gov.uk
- b) Pan wneir cais, a phan wneir sylwadau perthnasol i'r Awdurdod, rhaid iddo gynnal gwrandawriad o'r Is-bwyllgor Trwyddedu (oni bai bod y rhai sydd wedi gwneud sylwadau yn cytuno ymlaen llaw nad oes angen gwneud hyn).
- c) Yna, bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu'n ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr a chan y rhai sy'n cyflwyno sylwadau, y ddeddfwriaeth a'r Canllawiau cysylltiedig, y Datganiad o Bolisi Trwyddedu ac unrhyw ddata perthnasol arall.
- d) Bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu'n gwneud penderfyniad ar y cais a bydd yn cymryd unrhyw gamau y mae'n eu hystyried yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- e) Gellir ystyried amodau ar y drwydded, yn ychwanegol at y rhai a gynigir yn wirfoddol gan yr ymgeisydd. Bydd amodau priodol yn canolbwyntio ar faterion sydd o dan reolaeth deiliaid trwydded unigol ac sydd hefyd yn ymwneud â'r safleoedd neu'r lleoedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddadwy, ac effaith y gweithgareddau hynny yn y cyffiniau. Os bydd sefyllfaoedd yn codi lle mae'r amcanion trwyddedu'n cael eu cyfaddawdu ond na ellir ymdrin â hynny drwy ddefnyddio amodau priodol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried a yw'n briodol i drwydded gael ei dyroddi neu i'r safle barhau i weithredu.

25.7

Rhaid i amodau ar drwydded:

- fod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu;
- fod yn fanwl gywir ac yn orfodadwy;
- fod yn ddiamwys ac yn glir o ran yr hyn y bwriadant ei gyflawni;
- beidio â dyblygu gofynion statudol eraill na dyletswyddau neu gyfrifoldebau eraill a osodir ar y cyflogwr gan ddeddfwriaeth arall;
- fod wedi'u teilwra i fath, lleoliad a nodweddion unigol y safle a'r digwyddiadau dan sylw;
- beidio â bod yn rhai safonol a gallent fod yn anghyfreithlon pan na ellir dangos eu bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu mewn achos unigol;

- beidio â dyblygu tramgwyddau a nodir yn Neddf 2003 na deddfwriaeth arall;
- fod yn gymesur, yn gyfiawnadwy a bod modd eu bodloni;
- beidio â cheisio rheoli ymddygiad cwsmeriaid pan fyddant y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol deiliad y drwydded a'u staff, ond gallant effeithio ar ymddygiad cwsmeriaid yng nghyffiniau'r safle neu wrth iddynt gyrraedd neu adael; a
- bod wedi'u hysgrifennu mewn fformat rhagnodol.

25.8 Rhaid i unigolion sy'n gwneud cais am drwydded bersonol fod â hawl i weithio yng ngwledydd Prydain. Diwygiodd Deddf Mewnfudo 2016 Ddeddf Trwyddedu 2003 gan ddod i rym ar 6 Ebrill 2017 fel bod rhaid gwrthod cais a wneir ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny gan rywun nad oes ganddo hawl i weithio ym Mhrydain. Ni ddylid rhoi trwyddedau i bobl sydd yn y wlad yn anghyfreithlon, nad oes hawl ganddynt i weithio, neu sydd â hawl i weithio ond sy'n destun amod sy'n eu gwahardd rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â chynnal gweithgaredd trwyddadwy. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'n rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon bod gan ymgeisydd hawl i weithio ym Mhrydain, bod gan yr ymgeisydd ganiatâd i fod ym Mhrydain a'i fod yn cael ymgymryd â gwaith mewn gweithgaredd trwyddadwy. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unigolion sy'n gwneud cais am drwyddedau safle. Diben hyn yw atal gweithio anghyfreithlon yng ngwledydd Prydain.

25.9 Mae unigolion hefyd yn anghymwys i ddal trwydded os ydynt yn destun amod ar eu caniatâd i fod ym Mhrydain sy'n eu hatal rhag dal trwydded, er enghraifft os ydynt yn destun cyfyngiad mewnfudo nad yw'n caniatáu iddynt weithio.

26. Atodlen weithredu

26.1 Dylai pob cais newydd ac amrywiad ar gais gynnwys 'atodlen weithredu' sy'n amlinellu sut bydd y safle'n cael ei weithredu. Dylai hon gynnwys manylion am sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu ac yn lleihau unrhyw effaith negyddol bosib yn sgil gweithredu ei fusnes ar y gymuned leol, yn dibynnu ar y math o safle, lleoliad a phroffil y cwsmeriaid. Bydd y cynigion a gynhwysir yn yr atodlen weithredu yn ffurfio prif gorff yr amodau sydd i'w cymhwyso i'r drwydded, ynghyd ag unrhyw amodau gorfodol perthnasol, unrhyw amodau y cytunir arnynt gydag awdurdodau cyfrifol yn ystod y broses ymgeisio ac unrhyw amodau a osodir gan is-bwyllgor trwyddedu lle gwnaed sylwadau.

26.2 Wrth gwblhau atodlen weithredu, disgwylir i ymgeiswyr roi sylw i'r datganiad o bolisi trwyddedu hwn a dangos gwybodaeth addas am eu hardal leol wrth ddisgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

- 26.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi cyngor cyffredinol ar ddrafftio atodlenni gweithredu ac argymhellir yn gryf bod ymgeiswyr yn trafod eu hatodlenni gweithredu gyda'r Awdurdod Trwyddedu ac Awdurdodau Cyfrifol eraill cyn eu cyflwyno.
- 26.4 Bydd y cymhlethdod a'r manylder sy'n ofynnol yn yr atodlen weithredu yn dibynnu ar natur y safle dan sylw a'r defnydd a wneir ohono. Ar gyfer safleoedd megis tafarndai lle na ddarperir adloniant rheoledig, dim ond dogfen gymharol syml y gall fod ei hangen. Fodd bynnag, ar gyfer atodlen weithredu sy'n cyd-fynd â chais ar gyfer lleoliad neu ddigwyddiad adloniant mawr, disgwylir y bydd materion fel diogelwch y cyhoedd ac atal troseddu ac anhrefn yn cael sylw manwl.
- 26.5 Rhaid i'r atodlen weithredu gael ei nodi ar y ffurflen ragnodedig a rhaid iddi gynnwys datganiad o'r canlynol:-
- Manylion llawn y gweithgareddau trwyddadwy sydd i gael eu cynnal yn y safle a'r defnydd y bwriedir ei wneud ohono;
 - Ar ba adegau y bydd y gweithgareddau trwyddadwy yn cael eu cynnal;
 - Unrhyw adegau eraill pan fo'r safle ar agor i'r cyhoedd;
 - Pan fydd angen y drwydded am gyfnod cyfyngedig yn unig, y cyfnod hwnnw;
 - Enw a chyfeiriad yr unigolyn sydd i'w nodi fel Goruchwylydd Penodedig y Safle pan fydd y gweithgareddau trwyddadwy'n cynnwys cyflenwi alcohol;
 - A fydd alcohol yn cael ei gyflenwi i'w yfed ar y safle neu oddi arno;
 - Y camau mae'r ymgeisydd yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.
- 26.6 Ar gyfer rhai safleoedd, mae'n bosib na fydd unrhyw fesurau yn briodol i hyrwyddo un neu fwy o'r Amcanion Trwyddedu, er enghraifft, am eu bod yn cael eu cwmpasu'n ddigonol gan ddeddfwriaeth arall. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod atodlenni gweithredu:
- Yn fanwl gywir ac yn orfodadwy
 - Yn ddiamwys
 - Yn peidio â dyblygu darpariaethau statudol eraill
 - Yn glir o ran yr hyn y bwriadant ei gyflawni, ac
 - Yn briodol, yn gymesur ac yn gyfiawnadwy.
- 26.7 I gynorthwyo ymgeiswyr, mae'r awdurdod wedi darparu Cod Arferion Da/Cronfa Amodau Model ar gyfer safleoedd trwyddedig, ac mae'r cod cyfredol i'w weld yn Atodiad A y polisi hwn. Dylid nodi nad yw'r cod yn ffurfio unrhyw ran o'r polisi hwn ac y rhoddir canllawiau ac enghreifftiau o fesurau rheoli i gynorthwyo ymgeiswyr i baratoi atodlenni gweithredu ac i redeg safle trwyddedig. Nid yw'r cod yn hollgynhwysol ac ni

ddylid ei ystyried fel amodau safonol neu ofynion gorfodol mewn unrhyw ffordd.

27. Amodau

- 27.1 Mae Deddf Trwyddedu 2003, fel y'i diwygiwyd, yn gosod nifer o amodau gorfodol ar drwyddedau. Mae gan y Cyngor bŵer i osod amodau ychwanegol os yw o'r farn eu bod yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- 27.2 Bydd yr amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau neu dystysgrifau yn cael eu teilwra i arddull a nodweddion unigol y safle, y gweithgareddau a/neu'r digwyddiadau penodol a ddarperir ar y safle. Nid yw'r polisi'n darparu ar gyfer unrhyw amodau safonol na chyffredinol, ac ni fydd yn gosod gofynion anghymesur a beichus.
- 27.3 Caiff ymgeiswyr gynnig amodau yn yr atodlen weithredu fel rhan o'u cais; gall y Cyngor ddileu neu ail-eirio unrhyw rai o'r amodau hyn os tybir eu bod yn aneglur, yn amwys neu'n anorfodadwy, gyda chytundeb yr ymgeisydd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl bartïon yn deall yn llawn eu cyfrifoldebau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- 27.4 Mae'r Cyngor yn cydnabod mai dim ond ar ôl derbyn sylwadau perthnasol y gallant osod amodau a phan fernir eu bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Pan fo awdurdod cyfrifol yn rhoi tystiolaeth ei bod yn briodol gosod amodau penodol, caiff y cais ei ystyried gan y Cyngor a all awgrymu geiriad yr amod er mwyn sicrhau ei fod yn glir, yn berthnasol ac yn orfodadwy.
- 27.5 Wrth osod amodau, bydd y Cyngor hefyd yn ymwybodol o'r angen i osgoi mesurau a allai rwystro cerddoriaeth fyw, dawnzio neu theatr drwy osod costau o natur sylweddol, nad ydynt yn gymesur â'r risgiau.

28. Ceisiadau lle derbynnir sylwadau

- 28.1 Pan fydd cais yn cael ei wneud am ganiatâd, amrywiad neu adolygiad o drwydded safle neu dystysgrif safle clwb, gall yr awdurdodau cyfrifol neu unigolion eraill wneud sylwadau am y cais. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn rhoi mwy o bwys ar sylwadau a wneir gan bobl sy'n gallu dangos y byddai cynnal gweithgareddau trwyddadwy yn y safle dan sylw yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.
- 28.2 Rhaid cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl i'r Awdurdod Trwyddedu dderbyn y cais perthnasol. Rhaid cyflwyno sylwadau'n ysgrifenedig.

- 28.3 Gellir cyflwyno sylwadau naill ai i gefnogi cais neu i wrthwynebu caniatáu cais. Fodd bynnag, dim ond "sylwadau perthnasol" y gall yr Awdurdod Trwyddedu eu derbyn. Mae sylw'n "berthnasol" os yw'n ymwneud ag effaith debygol rhoi'r drwydded ar hyrwyddo o leiaf un o'r amcanion trwyddedu.
- 28.4 Enghraifft o sylw na fyddai'n berthnasol fyddai sylw gan berson busnes lleol ynglŷn â'r difrod masnachol y byddai cystadleuaeth o eiddo trwyddedig newydd yn ei achosi i'w fusnes ei hun. Ar y llaw arall, byddai sylwadau gan berson busnes y byddai niwsans a achosir gan eiddo newydd yn digalonni cwsmeriaid rhag dod i mewn i'r ardal leol, a bod y camau a gynigiwyd gan yr ymgeisydd i atal y niwsans hwnnw rhag digwydd yn annigonol, yn sylw perthnasol.
- 28.5 Dylai sylwadau ymwneud ag effaith gweithgareddau trwyddadwy sy'n cael eu cynnal mewn safleoedd ar yr Amcanion Trwyddedu.
- 28.6 Er mwyn i sylwadau mewn perthynas ag amrywiadau fod yn berthnasol, dylid eu cyfyngu i destun yr amrywiad.
- 28.7 Er bod yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i sylwadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth, nid yw'n ofynnol i Awdurdod Cyfrifol nac unigolyn arall gynhyrchu hanes cofnodedig o broblemau yn y safle i gefnogi'i sylwadau, a chydabyddir na fyddai hyn mewn gwirionedd yn bosib ar gyfer safleoedd newydd.
- 28.8 Grŵp o gyrff cyhoeddus yw awdurdodau cyfrifol y mae'n rhaid eu hysbysu'n llawn o geisiadau ac y mae ganddynt hawl i wneud sylwadau i'r Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â'r cais am ganiatâd, amrywiad neu adolygiad o drwydded safle neu dystysgrif safle clwb. Darperir rhestr llawn o fanylion cyswllt yr awdurdodau cyfrifol ar wefan yr Awdurdod Trwyddedu.
- 28.9 Er y gall yr holl awdurdodau cyfrifol gyflwyno sylwadau ynghylch ceisiadau am drwyddedau a thystysgrifau safleoedd clwb a cheisiadau amrywio llawn, cyfrifoldeb pob Awdurdod Cyfrifol unigol yw penderfynu pa bryd mae ganddynt sail briodol i wneud hynny.
- 28.10 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod y gall pob Awdurdod Cyfrifol gyflwyno sylwadau sy'n ymwneud ag unrhyw rai o'r pedwar Amcan Trwyddedu. Fodd bynnag, byddai'r Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn disgwyl i sylwadau ynghylch hyrwyddo Amcanion Trwyddedu unigol ddod gan yr Awdurdod Cyfrifol mwyaf perthnasol sydd ag arbenigedd yn y maes penodol hwnnw. Er enghraifft, byddai'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i sylwadau ynghylch atal troseddau ac anhrefn gael eu cyflwyno gan yr heddlu'n bennaf a dylai sylwadau am atal niwsans cyhoeddus ddod yn bennaf gan iechyd yr amgylchedd.

- 28.11 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod mai'r heddlu ddylai fod yn brif ffynhonnell cyngor ar faterion sy'n ymwneud â hyrwyddo'r amcan trwyddedu trosedd ac anhrefn, ond mae'n bosib y bydd hefyd yn gallu cyflwyno sylwadau perthnasol am yr Amcanion Trwyddedu eraill os oes ganddynt dystiolaeth i gefnogi sylwadau o'r fath.
- 28.12 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n derbyn pob sylw rhesymol a chymesur a wneir gan yr heddlu oni bai fod ganddo dystiolaeth na fyddai hynny'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n dal i ddisgwyl i unrhyw sylwadau gan yr heddlu fod yn seiliedig ar dystiolaeth a'u bod yn gallu gwrthsefyll gwaith craffu mewn gwrandawriad.
- 28.13 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod cyfraniad Gwasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Safonau Masnach a'r Bwrdd Iechyd Lleol o ran yr amcan trwyddedu diogelu plant rhag niwed.
- 28.14 Er nad yw iechyd y cyhoedd yn un o'r amcanion trwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod y gall cyrff iechyd ddal gwybodaeth nad yw awdurdodau cyfrifol eraill yn ei chadw, ond a fyddai o gymorth i'r Awdurdod Trwyddedu wrth arfer ei swyddogaethau.
- 28.15 Er enghraifft, gall meddwdod arwain at ddamweiniau ac anafiadau oherwydd trais, gan arwain at dderbyniadau i adrannau achosion brys a'r defnydd o wasanaethau ambiwlans. Bydd rhai o'r achosion hyn yn cael eu hadrodd i'r heddlu, ond ddim pob un. Gallai gwybodaeth o'r fath fod yn berthnasol i amcan diogelwch y cyhoedd ac, mewn rhai achosion, i'r amcan trosedd ac anhrefn.
- 28.16 O ganlyniad i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'r Awdurdod Trwyddedu bellach yn awdurdod cyfrifol ac felly gall wneud sylwadau os yw'n barnu ei bod yn briodol gwneud hynny.
- 28.17 Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol ar ran partïon eraill (er enghraifft, preswylwyr lleol, cynghorwyr lleol neu grwpiau cymunedol) er bod achlysuron lle gallai'r awdurdod benderfynu gwneud hynny.
- 28.18 Gall partïon o'r fath gyflwyno sylwadau perthnasol i'r Awdurdod Trwyddedu eu hunain, ac mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl iddynt gyflwyno sylwadau eu hunain lle mae'n rhesymol iddynt allu gwneud hynny.
- 28.19 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn disgwyl y dylai awdurdodau cyfrifol eraill ymyrryd pan fo'r sail ar gyfer yr ymyriad yn dod o fewn cylch gwaith yr Awdurdod Cyfrifol arall hwnnw. Mae gan bob Awdurdod Cyfrifol statws cyfartal o dan Ddeddf 2003 a gall weithredu'n annibynnol heb aros am sylwadau gan unrhyw Awdurdod Cyfrifol arall.

- 28.20 Mewn achosion lle mae Awdurdod Trwyddedu hefyd yn gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol yng nghyd-destun yr un broses, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio gwahanu cyfrifoldebau o fewn yr awdurdod er mwyn sicrhau tegwch gweithdrefnol a dileu gwrthdaro buddiannau. Gwneir hyn drwy ddyrannu'r gwahanol gyfrifoldebau i wahanol swyddogion trwyddedu neu swyddogion eraill yn yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu gwahanu'n briodol.
- 28.21 Gall unrhyw unigolyn arall wneud sylwadau perthnasol am geisiadau hefyd, waeth beth fo'i leoliad daearyddol mewn perthynas â'r safle perthnasol. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn rhoi mwy o bwys ar sylwadau a wneir gan bobl sy'n gallu dangos y byddai cynnal gweithgareddau trwyddadwy yn y safle dan sylw yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.
- 28.22 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn gwrthod unrhyw sylwadau gan bobl eraill y tybir eu bod yn wamal neu'n flinderus fel sylwadau annilys. Gellid ystyried bod sylw yn flinderus os yw'n ymddangos y bwriedir iddo achosi gwaethygiad neu annifyrrwch, boed i gystadleuydd neu unigolyn arall, heb achos rhesymol. Yn eu hanfod, mae sylwadau gwamal yn cael eu diffinio gan ddiffyg difrifoldeb. Byddai sylwadau gwamal yn ymwneud â materion sydd, ar y mwyaf, yn fân, a lle byddai unrhyw gamau adferol yn ddiangen neu'n anghymesur.
- 28.23 Fel arfer, swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu fydd yn gwneud y penderfyniadau ynghylch dilysrwydd y sylwadau. Mewn achosion ffiniol, bydd mantais yr amheuaeth ynghylch unrhyw agwedd ar y sylw yn cael ei rhoi i'r unigolyn sy'n gwneud y sylw hwnnw. Byddai'r gwrandawriad dilynol wedyn yn rhoi cyfle i'r unigolyn neu'r corff sy'n cyflwyno'r sylw ymhelaethu arno a'i egluro.
- 28.24 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n derbyn deisebau, ond mae rhai ffactorau pwysig i'w hystyried cyn trefnu deiseb:
- Gofynnwn i drefnydd y ddeiseb nodi ei hunain fel pwynt cyswllt canolog. Efallai y bydd angen i ni gysylltu â nhw er mwyn cadarnhau materion penodol ac, os na allwn wneud hyn, gallai annilysu'r ddeiseb.
 - Dylai pob tudalen o'r ddeiseb gynnwys gwybodaeth am ddiben y ddeiseb fel bod pawb yn gwybod beth maent yn ei lofnodi.
 - Rhaid darparu enwau llawn a chyfeiriadau
 - Rhaid i'r holl lofnodwyr fod yn ymwybodol y bydd copi o'r ddeiseb yn cael ei roi i'r ymgeisydd a bydd copi'n cael ei gynnwys ym mhapurau'r pwyllgor, felly bydd eu manylion personol yn dod yn wybodaeth gyhoeddus.

Ni fyddwn yn ysgrifennu at bob llofnodwr ar wahân, ond yn hytrach byddwn yn cymryd yn ganiataol y bydd y trefnydd yn rhoi gwybod i bob llofnodwr am ddyddiad y gwrandawriad a chanlyniad terfynol y cais. Disgwylir mai'r trefnydd fydd yn cynrychioli'r llofnodwyr yn y gwrandawriad ac yn siarad ar eu rhan. Wrth wneud penderfyniad, bydd

yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi pwys priodol ar ddeiseb. Dylai'r rhai sy'n dymuno cyflwyno sylwadau ddeall bod ansawdd y sylwadau a dderbyniwn yn ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniad.

- 28.25 Caiff unrhyw unigolyn sydd wedi'i dramgwyddo gan y ffaith bod ei sylwadau wedi'u gwrthod ar un o'r seiliau hyn gyflwyno cwyn drwy weithdrefn gwynion corfforaethol yr awdurdod. Gall person hefyd herio penderfyniad o'r fath drwy gyfrwng adolygiad barnwrol.
- 28.26 Pan roddir hysbysiad o wrandawriad i ymgeisydd, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu roi copïau o'r sylwadau perthnasol a wnaed i'r ymgeisydd.
- 28.27 Fel arfer, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n darparu copïau llawn a heb eu golygu o'r sylwadau perthnasol i'r ymgeisydd. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo unigolyn yn bodloni'r Awdurdod Trwyddedu bod ganddynt resymau dilys dros ofni byggythiad neu drais os caiff eu manylion personol, fel enw a chyfeiriad, eu datgelu i'r ymgeisydd, gellir golygu copïau o'r sylwadau yn unol â hynny.
- 28.28 O dan amgylchiadau o'r fath, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n dal i roi rhai manylion i'r ymgeisydd (megis enw stryd neu leoliad cyffredinol o fewn stryd), fel y gall yr ymgeisydd baratoi ei ymateb yn llawn i unrhyw sylw penodol.
- 28.29 Fel arall, efallai y bydd unigolion am gysylltu â'r Awdurdod Cyfrifol perthnasol neu eu Cynghorydd lleol gyda manylion am sut y maent o'r farn bod yr Amcanion Trwyddedu'n cael eu tanseilio, fel y gall yr Awdurdod Cyfrifol gyflwyno sylwadau ar eu rhan os yw hynny'n briodol ac yn gyfiawn.
- 28.30 Mae rhagor o ganllawiau ar wneud sylwadau ar gael ar wefan yr Awdurdod Trwyddedu.

29. Ymarfer a dirprwyo swyddogaethau

- 29.1 Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu fel yr Awdurdod Trwyddedu a sefydlu Pwyllgor Trwyddedu i fod yn gyfrifol am bob mater sy'n ymwneud â Deddf Trwyddedu 2003. Mae'r Pwyllgor Trwyddedu yn dirprwyo ymhellach i'r Is-bwyllgorau Trwyddedu (Paneli), neu i un neu fwy o swyddogion sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig.
- 29.2 Ystyrir y bydd llawer o'r swyddogaethau'n rhai gweinyddol i raddau helaeth heb unrhyw feysydd dadleuol. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a bod yn gost effeithiol, caiff y rhan fwyaf o'r rhain eu cyflawni gan swyddogion. Bydd gan yr Awdurdod Trwyddedu, wrth weithredu fel Awdurdod Cyfrifol sy'n gwneud sylwadau ar geisiadau am Drwydded, swyddogaethau ar wahân ar gyfer swyddogion. Bydd yn

ofynnol i un aelod o staff weinyddu'r cais a bydd aelod arall o'r staff yn gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol ac yn rhoi sylwadau ar y cais.

29.3 Mae'r Rhestr isod yn nodi'r swyddogaethau a'r penderfyniadau a gaiff eu dirprwyo. Er gwaethaf y rhagdybiaeth hon o ddirprwyo, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyfeirio unrhyw fater at y Pwyllgor Trwyddedu neu'r Is-bwyllgor Trwyddedu.

29.4 **Rhestr dirprwyo swyddogaethau a phenderfyniadau trwyddedu**

Mater i ymdrin ag ef	Pwyllgor Trwyddedu	Is-bwyllgor Trwyddedu (paneli)	Swyddogion
Cais am drwydded bersonol		Os bydd gwrthwynebiad gan yr heddlu	Os na chafwyd gwrthwynebiad
Cais am drwydded bersonol gydag euogfarnau sydd heb eu disbyddu		Pob achos	
Cais am drwydded safle/tystysgrif safle clwb		Os caiff sylw perthnasol ei wneud heb ei dynnu'n ôl	Os na chaiff sylw perthnasol ei wneud neu fod y sylw'n cael ei dynnu'n ôl
Cais am ddatganiad dros dro		Os caiff sylw perthnasol ei wneud heb ei dynnu'n ôl	Os na chaiff sylw perthnasol ei wneud neu fod y sylw'n cael ei dynnu'n ôl
Cais i amrywio trwydded safle/tystysgrif safle clwb		Os caiff sylw perthnasol ei wneud heb ei dynnu'n ôl	Os na chaiff sylw perthnasol ei wneud neu fod y sylw'n cael ei dynnu'n ôl
Cais i amrywio goruchwylydd penodedig y safle		Os bydd gwrthwynebiad gan yr heddlu	Pob achos arall
Cais am amrywiad bach			Pob achos
Cais i amrywio trwydded safle		Os bydd gwrthwynebiad	Pob achos arall

cymunedol i gynnwys amod trwydded arall		gan yr heddlu	
Cais i gael eich tynnu fel goruchwylydd penodedig y safle			Pob achos
Cais i drosglwyddo trwydded safle		Os bydd gwrthwynebiad gan yr heddlu	Pob achos arall
Cais ar gyfer awdurdodau dros dro		Os bydd gwrthwynebiad gan yr heddlu	Pob achos arall
Cais i adolygu trwydded safle/tystysgrif safle clwb		Pob achos	
Penderfyniad ynghylch a yw cwyn yn amherthnasol, yn flinderus, yn wamal ac ati.			Pob achos
Penderfynu ar wrthwynebiad gan yr heddlu neu iechyd yr amgylchedd i hysbysiad digwyddiad dros dro		Ym mhob achos os nad yw'n cael ei dynnu'n ôl.	
Atal trwyddedau ar ôl peidio â thalu ffioedd blynyddol			Pob achos

30. Adolygiadau o drwyddedau

- 30.1 Dim ond lle yr honnir gan "awdurdod cyfrifol" neu unigolyn arall bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu torri y gall Cyngor adolygu trwydded. Bydd awdurdodau

cyfrifol yn ceisio rhoi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwydded o unrhyw bryderon a nodir ar y safle. Dim ond awdurdodau cyfrifol neu unigolion eraill (e.e. trigolion lleol, sefydliadau lleol a chynghorwyr) all wneud cais i adolygu trwydded; a gwneir penderfyniad am y canlyniad mewn gwrandawriad lle bydd sail dystiolaeth ar gyfer honiadau a wneir yn cael ei chyflwyno. Mae'n gweld ceisiadau am adolygiad o unrhyw drwydded safle fel rhai arbennig o ddifrifol lle maent yn cynnwys:

- defnyddio safleoedd trwyddedig i werthu a dosbarthu cyffuriau a reolir a gwyngalchu enillion troseddau cyffuriau;
- defnyddio safleoedd trwyddedig ar gyfer gwerthu a dosbarthu arfau tanio anghyfreithlon;
- osgoi hawlfraint o ran copïau ffug o ffilmiau a cherddoriaeth;
- prynu ac yfed alcohol o dan oed;
- defnyddio safleoedd trwyddedig ar gyfer puteindra neu werthu pornograffi anghyfreithlon;
- defnyddio safleoedd trwyddedig ar gyfer hapchwarae anghyfreithlon;
- defnyddio safleoedd trwyddedig fel canolfan ar gyfer gweithgarwch troseddol cyfundrefnol;
- defnyddio safleoedd trwyddedig i drefnu ymosodiadau neu gamdriniaeth hiliol, homoffobaidd neu rywiol;
- defnyddio safleoedd trwyddedig ar gyfer gwerthu tybaco neu nwyddau a gafodd eu smyglo;
- defnyddio safleoedd trwyddedig ar gyfer storio neu werthu nwyddau a gafodd eu dwyn;
- bod yr heddlu'n cael eu galw'n aml i fynd i ymchwilio i achosion o anhrefn;
- achosion hir a/neu ailadroddus o niwsans cyhoeddus;
- bod perygl difrifol i ddiogelwch y cyhoedd wedi'i nodi ac nad yw'r rheolwyr yn gallu neu'n fodlon ei gywiro;
- Perygl difrifol i blant.

30.2 Bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu'n ystyried yr holl dystiolaeth a ddarparwyd yn y gwrandawriad ac yn rhoi pwys priodol ar y dystiolaeth honno wrth wneud ei benderfyniad.

30.3 Bydd yr is-bwyllgor trwyddedu'n ystyried yr holl sancsiynau sydd ar gael iddo ac y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf a'r canllawiau, gan gynnwys peidio â gweithredu os yw'n briodol. Mewn achosion lle mae amcan trwyddedu'n cael ei danseilio'n ddifrifol, bydd dirymu'r drwydded, hyd yn oed yn y lle cyntaf, yn cael ei ystyried lle y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu hyrwyddo.

30.4 Mewn achosion lle mae amcan trwyddedu'n cael ei danseilio'n ddifrifol, bydd dirymu'r drwydded, hyd yn oed yn y lle cyntaf, yn cael ei ystyried yn ddwys lle y

bo'n briodol er mwyn sicrhau bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu hyrwyddo.

31. Asesiad Effaith Gronnus

- 31.1 O dan Ddeddf Trwyddedu 2003, mae gan Awdurdodau Trwyddedu'r pŵer i gyflwyno polisi effaith gronnus lle mae tystiolaeth yn dangos bod nifer sylweddol o safleoedd trwyddedig wedi'u canolbwyntio mewn un ardal wedi arwain at gynydd mewn; Trosedd ac anhrefn, Niwsans cyhoeddus neu'r ddau. Lle caiff ei fabwysiadu, mae Polisi Effaith Gronnus yn creu rhagdybiaeth y gellir ei gwrthateb y bydd ceisiadau am drwyddedau safle newydd, tystysgrifau safleoedd clwb neu amrywiadau sy'n debygol o ychwanegu at yr effaith gronnus bresennol yn cael eu gwrthod.
- 31.2 Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi'r camau i'w dilyn wrth ystyried a ddylid mabwysiadu polisi arbennig o fewn y Polisi. Mae'r rhain yn cynnwys -
- a) Nodi pryder am drosedd ac anhrefn; diogelwch y cyhoedd; niwsans cyhoeddus; neu ddiogelu plant rhag niwed
 - b) Ystyried a oes tystiolaeth dda bod trosedd ac anhrefn neu niwsans yn digwydd, neu a oes unrhyw weithgareddau sy'n fygythiad i ddiogelwch y cyhoedd neu i ddiogelu plant rhag niwed.
 - c) Os oes problemau o'r fath yn codi, nodi ai cwsmeriaid safleoedd trwyddedig sy'n achosi'r problemau hyn, neu a yw'r risg o effaith gronnus ar fin digwydd.
 - d) Nodi ffiniau'r ardal lle mae problemau'n digwydd
 - e) Ymgynghori â'r rhai a bennir gan Adran 5(3) o'r Ddeddf Trwyddedu ac, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghori hwnnw, cynnwys a chyhoeddi manylion am unrhyw bolisi arbennig yn y datganiad polisi trwyddedu.
- 31.3 Ym mis Ebrill 2018, cyflwynodd Adran 141 o Ddeddf Plismona a Throseddu 2018 Adran 5A newydd i Ddeddf Trwyddedu 2003 sy'n ymwneud ag Asesiadau Effaith Gronnus. Cyn y gellir cyflwyno ardal asesu effaith, rhaid i'r Awdurdod roi rhesymau pam ei fod yn ystyried cynnal Asesiad Effaith Gronnus, pa ran neu rannau maent yn tybio eu bod yn yr Asesiad ac a yw'n tybio bod yr Asesiad yn berthnasol i bob trwydded neu rai o fath penodol. Fel y cyfryw, rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad trwyadl ac os cyflwynir Asesiad Effaith Gronnus, rhaid ei adolygu o leiaf bob tair blynedd.
- 31.4 Ar hyn o bryd, does dim ardaloedd ag Asesiadau Effaith Gronnus yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Pe bai tystiolaeth yn cael ei darparu ynghylch effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu, byddai llunio polisi arbennig yn cael ei ystyried yn ofalus gan roi sylw dyledus i'r canllawiau a ddarperir yn Adran 182 o'r Ddeddf.
- 31.5 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod bod nifer o fesurau eisoes ar gael sy'n

berthnasol i fynd i'r afael ag ymddygiad anghyfreithlon a gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â safleoedd trwyddedig, gan gynnwys:

- Rheoliadau cynllunio
- Mesurau cadarnhaol er mwyn creu amgylchedd glân a diogel mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr trafnidiaeth ac adrannau eraill o'r awdurdod lleol
- Darparu system gwyliadwriaeth teledu cylch cyfyng, rhengoedd taccis, cyfleusterau cyhoeddus sydd ar agor yn hwyr yn y nos, glanhau strydoedd a phatrolio sbwriel
- Pwerau awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o ardal yr awdurdod lleol yn fannau lle na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus.
- Atafaelu alcohol gan oedolion a phlant mewn ardaloedd dynodedig
- Heddlu'n gorfodi'r gyfraith gyffredinol ynghylch anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig
- Erlyn am y drosedd o werthu alcohol i unigolyn sy'n feddw (neu ganiatáu gwerthiant o'r fath) – pwerau'r Heddlu i gau unrhyw safle trwyddedig neu ddigwyddiad dros dro ar unwaith am hyd at 24 awr (gyda'r gallu i'w ymestyn i 48 awr) ar sail anhrefn, y tebygolrwydd o anhrefn, neu sŵn sy'n dod o'r safle sy'n achosi aflonyddwch.
- Amodau cadarn ar y drwydded yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.
- Pŵer yr heddlu, awdurdod cyfrifol arall neu unigolyn i ofyn am adolygiad o'r drwydded neu'r dystysgrif.
- Cyfarfodydd Awdurdodau Cyfrifol rheolaidd, i'r partïon roi sylwadau am safleoedd ac ardaloedd problemus, a darparu cynllun gweithredu.

32. Gorchmynion cyfyngu yn gynnar yn y bore

- 32.1 Mae Gorchymyn Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore yn cyfyngu ar yr amser y gellir cyflenwi alcohol. Gellir gwahardd cyflenwi alcohol rhwng 00.00-06.00 ac mae'n gymwys i Drwyddedau Safle, Tystysgrifau Safle Clwb a Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro. Nid oes eithriadau, ac eithrio'r hyn sy'n awdurdodi cyflenwi alcohol i breswylwyr sydd â llety dros nos drwy gyfrwng bariau mini a gwasanaeth ystafell.
- 32.2 Mae Gorchymyn Cyfyngu yn offeryn pwerus gan ei fod yn gallu atal safle trwyddedig mewn ardal benodol rhag cyflenwi alcohol yn ystod yr amseroedd y mae'r Gorchymyn Cyfyngu yn berthnasol.
Cyn unrhyw benderfyniad i argymhell i'r Cyngor llawn bod Gorchymyn Cyfyngu yn cael ei gynnig, dylai fod yn fodlon bod ganddo ddigon o dystiolaeth bod mesur o'r fath yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- 32.3 Ar hyn o bryd, does dim Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore yn bodoli yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
Bydd unrhyw geisiadau am Orchymyn Cyfyngu yn cael eu hystyried ar sail tystiolaeth (mae'r canllawiau'n nodi'r mathau o dystiolaeth a allai fod yn berthnasol). Fodd bynnag, bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn ystyried tystiolaeth gan bartneriaid lleol,

awdurdodau cyfrifol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol neu barti arall y maent yn tybio eu bod yn berthnasol yn eu penderfyniadau ynghylch a fyddai Gorchymyn Cyfyngu yn ddull priodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

33. Gwrandawiadau

- 33.1 Penderfynir ar geisiadau am drwyddedau a thystysgrifau yn dilyn ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol perthnasol. Lle na dderbynnir sylwadau, byddant yn cael eu cyhoeddi'n weinyddol gan y Tîm Trwyddedu. Fodd bynnag, rhaid cyfeirio ceisiadau dadleuol at Is-bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor (panel) i'w ystyried, oni bai bod pob parti yn cytuno nad oes angen gwrandawriad.
- 33.2 Mae'r cyfnod o rybudd am wrandawriad y mae'n rhaid ei roi i bob parti perthnasol, a'r wybodaeth y caniateir ei datgelu, yn amrywio yn dibynnu ar y math o gais, yn seiliedig ar reoliadau. Bydd Is-bwyllgor Trwyddedu (panel) o dri Aelod Etholedig yn penderfynu ar gais dadleuol a naill ai'n rhoi trwydded, yn rhoi trwydded gyda diwygiadau neu'n gwrthod y cais. Gall unrhyw barti apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor i Lys Ynadon.
- 33.3 Ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod trwydded, gall unrhyw awdurdod cyfrifol neu unigolyn arall ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif. Bydd yr holl geisiadau am adolygiadau yn cael eu penderfynu gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu.

34. Apeliadau

- 34.1 Nodir yr hawl i bartïon a dramgwyddir gan benderfyniadau'r Cyngor apelio yn Atodlen 5 o'r Ddeddf. Heblaw yn achos trwyddedau personol, mae'n rhaid gwneud apêl i'r Llys Ynadon lleol. Yn achos trwyddedau personol, rhaid i'r apêl gael ei gwneud i'r Llys Ynadon ar gyfer yr ardal lle mae'r awdurdod trwyddedu sydd wedi ystyried y cais (neu unrhyw ran ohono) wedi'i leoli.
- 34.2 Rhaid i apêl gael ei chychwyn drwy roi hysbysiad o'r apêl gan yr apelydd i'r canlynol:
Clerc yr Ustusiaid,
Llys Ynadon Casnewydd
Heol Wysg
Casnewydd
Gwent
NP20 2GE
01633 261300

O fewn 21 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbyswyd yr apelydd gan y Cyngor o'r penderfyniad yr apelir yn ei erbyn.

34.3 Wrth benderfynu ar apêl, caiff y Llys:

- wrthod yr apêl
- amnewid unrhyw benderfyniad arall a allai fod wedi'i wneud gan y Cyngor, neu
- ddychwelyd yr achos i'r Cyngor i'w waredu yn unol â chyfarwyddyd y Llys.

Caiff y Llys wneud unrhyw orchymyn ynghylch costau fel y gwêl yn dda.

34.4 Gan ragweld apeliadau o'r fath, bydd y Cyngor yn rhoi rhesymau cynhwysfawr dros ei benderfyniadau. Wrth lunio canfyddiadau ffeithiol yn ei resymau, bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â safon profi a'r baich profi y maent wedi'i fabwysiadu. Bydd y Cyngor hefyd yn trafod i ba raddau y gwnaed y penderfyniadau gyda sylw i'w ddatganiad ar bolisi trwyddedu a'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 182 Gweithredu penderfyniad y Llysoedd Ynadon

34.5 Lle bo'n briodol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr a gwrthwynebwyr ac ati ynghylch eu hawliau i apelio.

34.6 Lle bo'n briodol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr a gwrthwynebwyr ac ati ynghylch eu hawliau i apelio.

35. Gweithredu penderfyniad Llys yr Ynadon

35.1 Cyn gynted ag y bydd penderfyniad y Llysoedd Ynadon wedi cael ei gyhoeddi, ni fydd y Cyngor yn oedi cyn ei weithredu a chymerir y camau angenrheidiol yn ddi-oed oni bai bod llys uwch yn gorchymyn iddo atal camau o'r fath [er enghraifft, o ganlyniad i Adolygiad Barnwrol sydd ar droed]. Nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer apêl bellach yn erbyn penderfyniad y Llysoedd Ynadon.

36. Gorfodi

36.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi sefydlu protocolau gorfodi ar y cyd gyda'r heddlu ac awdurdodau gorfodi eraill. Bydd y protocolau hyn yn darparu ar gyfer targedu safleoedd problemus a risg uchel y cytunwyd arnynt, ond bydd llai o rym yn cael ei ddefnyddio yn achos safleoedd risg isel sy'n ymddangos fel eu bod yn cael eu rhedeg yn dda.

- 36.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n bwriadu i ymweliadau gorfodi gael eu gwneud â safleoedd trwyddedig fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw amodau a osodir fel rhan o'r drwydded. Gall yr ymweliadau hyn fod naill ai'n arolygiadau rhagweithiol a gynlluniwyd yn seiliedig ar y risg a gyflwynir gan y safle, hanes o ddiffyg cydymffurfio ac ati, neu'n ymweliadau ymatebol o ganlyniad i gwynion.
- 36.3 Yn gyffredinol, dim ond yn unol ag egwyddorion gorfodi y cytunwyd arnynt ac yn unol â pholisi gorfodi'r Cyngor ei hun y cymerir unrhyw gamau. I'r perwyl hwn, bydd egwyddorion allweddol cysondeb, tryloywder a chymesuredd yn cael eu cynnal. I gael rhagor o wybodaeth am Bolisi Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor, gweler <https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Strategies,-plans-and-policies/Environmental-health/Public-Protection-Enforcement-Policy?lang=cy-gb>
- 36.4 Yn gyffredinol, dim ond yn unol ag egwyddorion gorfodi y cytunwyd arnynt ac yn unol â pholisi gorfodi'r Cyngor ei hun y cymerir unrhyw gamau. I'r perwyl hwn, bydd egwyddorion allweddol cysondeb, tryloywder a chymesuredd yn cael eu cynnal.

37. Ffioedd yn Gyffredinol

- 37.1 Mae'r holl ffioedd wedi'u pennu gan statud ar hyn o bryd, ac mae'n ofynnol i'r Cyngor godi'r ffioedd fel y manylir yn y Rheoliadau Ffioedd.
- 37.2 Mae gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddarpariaethau i gynghorau bennu eu ffioedd yn lleol, ond ar hyn o bryd nid yw'r adrannau perthnasol wedi dod i rym. Pan ddônt i rym, bydd y cynghorau'n cyfrifo'r ffioedd i adennill costau'r gwasanaeth ac yna'n ymgynghori ynghylch eu rhoi ar waith cyn gofyn i'r Pwyllgor Trwyddedu gymeradwyo unrhyw newid.

38. Ffioedd Blynnyddol ar gyfer Trwyddedau Safle a Thystysgrifau Safle Clwb

- 38.1 Mae Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf yn nodi gofynion ar gyfer ffioedd blynnyddol ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r ffi gael ei thalu ar y dyddiad dyledus, sef bob blwyddyn ar ben-blwydd rhoi'r drwydded wreiddiol. Ar hyn o bryd, mae'r ffi yn cael ei phennu gan reoliadau. Fodd bynnag, bydd diwygiadau a wneir gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi'r gallu i'r Cyngor bennu ffioedd yn lleol i adennill costau sy'n

gysylltiedig â gweinyddu a chydymffurfio â'r Ddeddf.

39. Atal trwyddedau am beidio â thalu ffioedd blynyddol

- 39.1 Mae'r diwygiadau a wnaed i Ddeddf Trwyddedu 2003 gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi'r pŵer i gynghorau atal trwyddedau safle a thystysgrifau safle clwb pan na thelir y ffi flynyddol sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau.
- 39.2 Bydd y Cyngor yn atal unrhyw drwydded neu dystysgrif pan na chaiff y ffi ofynnol ei thalu erbyn y 'dyddiad dyledus', sef bob blwyddyn ar ben-blwydd dyddiad rhoi'r drwydded i ddechrau. Bydd y Cyngor yn dilyn y weithdrefn isod:-
- 39.3 Ar ôl hysbysu/darganfod nad yw ffi flynyddol wedi cael ei thalu, bydd y Cyngor yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i ddeiliad y drwydded/tystysgrif,
- y bydd y drwydded/tystysgrif yn cael ei hatal dros dro 14 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad.
 - Bydd hefyd yn datgan na fydd yr ataliad yn dod i rym os caiff y ffi ei thalu cyn y dyddiad atal.
 - Os honnir bod gwall gweinyddol wedi'i wneud, gall y dyddiad atal fod 21 diwrnod ar ôl y dyddiad dyledus; neu ddyddiad yr ataliad ar yr hysbysiad 14 diwrnod, p'un bynnag yw'r diweddaraf.
 - Bydd copi o'r hysbysiad hefyd yn cael ei gyflwyno i oruchwylydd penodedig y safle/rheolwr y safle os nad nhw yw deiliad trwydded y safle.
- 39.4 Os na thelir y ffi erbyn y dyddiad a nodir ar yr hysbysiad, bydd y drwydded/tystysgrif yn cael ei hatal. Hysbysir deiliad y drwydded/tystysgrif a Goruchwylydd Penodedig y Safle/Rheolwr y safle ar unwaith bod yr ataliad wedi dod i rym, ac na all y safle gynnig unrhyw weithgareddau trwyddadwy hyd nes y telir y ffi a bod yr ataliad yn cael ei godi. Pan fydd y taliad llawn yn cael ei wneud bydd y Cyngor yn codi'r ataliad yn syth, ac yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig.
- 39.5 Pan fydd trwydded/tystysgrif yn cael ei hatal a bod gweithgareddau trwyddadwy'n cael eu darparu, bydd y Cyngor yn ystyried erlyn y darparwr am dramgwyddau o dan adran 136 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

40. Ardollau gyda'r hwyr

- 40.1 Mae Ardoll Gyda'r Hwyr yn bŵer dewisol, a gyflwynir gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, sy'n caniatáu i Awdurdodau Trwyddedu godi cyfraniad tuag at gostau plismona economi gyda'r hwyr drwy godi ardoll ar

ddeiliaid Trwyddedau Safle a Thystysgrifau Safle Clwb sydd wedi'u hawdurdodi i werthu alcohol. Mae'n rhaid i'r Ardoll Gyda'r Hwyr fod yn gymwys drwy'r Fwrdeistref gyfan, ac mae hefyd yn berthnasol i bob safle trwyddedig ac all-drwyddedig. Nid yw Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro wedi eu cynnwys.

- 40.2 Mae'r ardoll yn daladwy gan ddeiliaid unrhyw drwydded safle neu dystysgrif safle clwb sy'n awdurdodi gwerthu neu gyflenwi alcohol ar unrhyw ddiwrnodau yn ystod cyfnod penodol (y cyfeirir ato fel y cyfnod cyflenwi gyda'r hwyr) sy'n dechrau am hanner nos neu ar ôl hynny ac yn gorffen am 0600 neu cyn hynny.
- 40.3 Disgwylir i'r awdurdod trwyddedu ystyried yr angen am ardoll gyda Phrif Swyddog yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau ar gyfer ardal yr heddlu lle bwriedir cyflwyno'r ardoll. Gall preswylwyr lleol ddefnyddio'u hawliau presennol i wneud sylwadau a defnyddio sianeli cyfathrebu eraill i alw am weithredu ardoll yn eu hardal. Y Cyngor fydd yn cael penderfynu cyflwyno Ardoll Gyda'r Hwyr. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y dull hwn os bydd yn angenrheidiol ac yn briodol ar unrhyw adeg, a bydd yn cynnal ymgynghoriad llawn cyn i'r ddarpariaeth gael ei hystyried.

41. Rhagor o Wybodaeth

Mae modd cael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Trwyddedu 2003 a pholisi trwyddedu'r Cyngor gan:

*Yr Adran Drwyddedu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta,
Parc Tredomen, Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7PG
Ffôn: 01443 866750*

*E-bost: trwyddedu@caerffili.gov.uk
Gwefan: www.caerffili.gov.uk*